



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Un Iechyd | Un Lles | Un Cymru

Cynllun Gweithredu Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid Cymru 2022-24



Cynnwys

Rhagair gan y Gweinidog	3
Cefndir	6
Cyflwyniad	8
Adolygiad o Gynllun Gweithredu 2019–2020.....	11
<i>Dyheadau Pennawd 2022–2024.....</i>	<i>14</i>
Iechyd i Bawb.....	14
Lles i Bawb	15
Bioddiogelwch.....	17
<i>Atal Clefydau.....</i>	<i>19</i>
Cylch Gwella Iechyd Anifeiliaid	20
Defnyddio Meddyginiaethau mewn Modd Cynaliadwy	23
Ymwrthedd i Gyffuriau Gwrthficrobaidd	23
Meddyginiaethau Gwrthlyngyr	25
Adnabod Da Byw	28
Gwyliadwriaeth Filfeddygol	30
Masnach Ryngwladol	32
<i>Dileu Clefydau.....</i>	<i>35</i>
Dolur Rhydd Feirysol Buchol	35
Y Clafr.....	37
Twbercwlosis Buchol	39
Cynllunio wrth gefn ar gyfer Clefydau Egsotig Hysbysadwy mewn Anifeiliaid	41
<i>Lles a Pherchnogaeth Gyfrifol</i>	<i>44</i>
Anifeiliaid a Ffermir	46
Teledu Cylch Cyfyng mewn Lladd-dai.....	46
Lles Anifeiliaid wrth iddynt Gael eu Cludo	47
Cyfyngu ar ddefnyddio cewyll ar gyfer anifeiliaid a ffermir	48
Codau Ymarfer ar gyfer Lles	49
Anifeiliaid Anwes	50
Trwyddedu Arddangosfeydd Anifeiliaid a Sefydliadau Anifeiliaid	50
Creu Model Cenedlaethol ar gyfer Rheoleiddio Lles Anifeiliaid	51
Anifeiliaid Eraill a Gedwir	52
Diwygiadau i Safonau Arferion Sŵau Modern	52
Cloffni mewn Da Byw	53
<i>Manylion cyswllt.....</i>	<i>56</i>

Gwella iechyd cymaint ag y bo modd ar gyfer anifeiliaid, ein cymunedau a'n hamgylchedd



Rhagair Y Gweinidog

Lesley Griffiths

Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd.

Rhagair gan y Gweinidog

Ar hyn o bryd rydym yn wynebu'r heriau cyfunol o ymateb i adael yr Undeb Ewropeaidd (UE) a phandemig y coronafeirws, yn ogystal ag wynebu argyfwng hinsawdd. Mae adfywio ac ail-lansio ein Cynllun Gweithredu bellach yn rhoi cyfle i sicrhau bod iechyd a lles anifeiliaid yn ganolog i'r gwaith o fynd i'r afael â'r materion hyn mewn ffordd gynaliadwy, gydweithredol a chydlynol. Bydd gweithio gyda'n gilydd i fodloni egwyddor 'Iechyd i Bawb, Lles i Bawb, Cymru i Bawb, o fudd i iechyd anifeiliaid, iechyd cymunedau a'r amgylchedd.

Mae'r dirwedd wedi newid yn ddramatig ers gadael yr UE. Mae datblygu Safleoedd Rheoli Ffiniau yng Nghymru, gydag anifeiliaid byw a chynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid yn cael eu gwirio a'u hardystio yn gynyddol, yn heriol, yn enwedig pan fydd adnoddau milfeddygol eisoes yn brin. Serch hynny, gwelaf y Cynllun newydd hwn fel cyfle i wella safonau, mewn ffordd sy'n diogelu masnach ac

yn adeiladu sector ffermio mwy cynaliadwy.

Heb os mae pandemig y coronafeirws wedi profi ein gwydnwch. Mae ceidwaid da byw, perchnogion anifeiliaid eraill, milfeddygon a rhanddeiliaid ehangach wedi parhau i sicrhau safonau uchel o ofal ar gyfer ein hanifeiliaid yng Nghymru, er gwaethaf y cyfyngiadau a'r heriau o ran adnoddau.

Rydym yn awyddus i integreiddio elfennau clir mewn perthynas ag iechyd a lles anifeiliaid yn y Cynllun Ffermio Cynaliadwy newydd sy'n cael ei ddatblygu yng Nghymru, fel y nodwyd yn yr ymgynghoriad Ffermio Cynaliadwy a'n Tir. Mae rhywfaint o'r gwaith hwn eisoes wedi cael ei ddatblygu drwy Stoc+ Hybu Cig Cymru (HCC) a phrosiectau HerdAdvance y Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth (AHDB), gan gyflwyno'r Cylch Gwella Iechyd Anifeiliaid ar ffermydd ledled Cymru. Ochr yn ochr â'r gwaith pwysig hwn, mae rhaglen hyfforddi Cyswllt Ffermio ar Iechyd a

Lles Anifeiliaid yn ategu rhannu gwybodaeth.

Yn awr, mae gennym gyfle i newid y ffordd rydym yn cefnogi amaethyddiaeth yn llwyr, a sicrhau bod gwaith sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau yn derbyn y gydnabyddiaeth mae'n ei haeddu. Hoffwn weld enw da Cymru am safonau iechyd a lles uchel yn parhau ac yn cael ei gynnal mewn ffordd sy'n mynd i'r afael ag anghenion cenedlaethau'r dyfodol.

Hoffwn dreulio ychydig o amser yn ystyried ein cyflawniadau ers cyhoeddi'r cynllun gweithredu diwethaf, yn benodol y rhai a oedd yn cael eu cefnogi gan Grŵp Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid Cymru ('Grŵp y Fframwaith'). Rydym wedi parhau i hyrwyddo perchnogaeth gyfrifol ar gyfer pob anifail a gedwir ac wedi gwneud cynnydd pendant o ran gwella safonau lles anifeiliaid yng Nghymru. Disgwylir i'r cynnydd hwn barhau, gydag ymrwymadau allweddol i les anifeiliaid yn cael eu cynnwys yn y Rhaglen Lywodraethu, sydd bellach wedi cael eu hymgorffori yn ein 'Cynllun Lles Anifeiliaid i Gymru 2021–2026'. Mae gan Grŵp y Fframwaith rôl gynghori allweddol wrth inni gyflawni'r ymrwymadau i les o fewn y cynllun hwnnw.

Rwyf hefyd yn falch o gynnydd ein cynllun pum mlynedd ar ymwrthedd i gyffuriau gwrthficrobaidd (AMR), yn enwedig y gwaith a wnaed gan brosiect Arwain Vet Cymru. Dyma enghraifft arall o'r dull 'Iechyd i Bawb, Lles i Bawb, Cymru i Bawb' ar gyfer

ymdrin ag iechyd a lles anifeiliaid yr hoffwn ei ymsefydlu.

Mae Grŵp y Fframwaith wedi bod yn rhagweithiol wrth gyfrannu barn arbenigol i gefnogi'r gwaith o ddatblygu polisiau newydd i reoli TB buchol. Yr un mor bwysig, mae wedi bod yn allweddol wrth lunio ein cynlluniau i gyflwyno deddfwriaeth i ddileu BVD (Dolur Rhydd Feirysol Buchol) yng Nghymru i atgyfnerthu'r cynnydd gwirfoddol a wnaed hyd yma.

Bydd y Cynllun Gweithredu hwn, ynghyd â'n Cynllun Lles Anifeiliaid i Gymru 2021–26 a rhaglen TB wedi'i hailwampio, yn nodi sut rydym yn diogelu ac yn gwella iechyd a lles yr anifeiliaid a gedwir yng Nghymru. Bydd y cysyniad 'Iechyd i Bawb, Lles i Bawb, Cymru i Bawb' yn ein galluogi i wneud gwahaniaeth gwirioneddol, gan gydnabod bod cysylltiad annatod rhwng anifeiliaid, cymunedau a'r amgylchedd rydym yn ei rannu. Bydd parhau i gael effaith gadarnhaol yn y meysydd pwysig hyn yn cyfrannu at nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 sydd, yn holl bwysig, yn cynnwys ein targedau newid hinsawdd. Ac mae'r Cynllun hwn yn ein rhoi ar y trywydd iawn i ddatblygu Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid deng mlynedd newydd, a fydd yn cael ei lansio gennym yn 2024.

Yn ogystal â'r pwysau y cyfeiriwyd atynt, mae hwn wedi bod yn gyfnod o newid i Grŵp y Fframwaith, gyda phum aelod presennol yn cyrraedd diwedd eu tymor aelodaeth, a phum aelod newydd yn cael eu penodi wedyn. Hoffwn ddiolch i'r aelodau sy'n gadael

am eu cyfraniadau gwerthfawr, yn ogystal â chroesawu'r aelodau newydd. Mae Grŵp y Fframwaith wedi parhau i ganolbwyntio ar ei rôl drwy gydol y cyfnod hwn, ac rwy'n hyderus y bydd yn parhau i fod yn ased gwerthfawr wrth ein helpu i gyflawni ein blaenoriaethau cyffredin.

Rhaglen Lywodraethu
www.llyw.cymru/rhaglen-lywodraeth

Ffermio Cynaliadwy a'n Tir
www.llyw.cymru/ffermio-cynaliadwy-tir-symleiddio-cymorth-amaethyddol

Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol
www.llyw.cymru/llesiant-cenedlaethau-y-dyfodol-cymru



**LLESIANT
CENEDLAETHAU'R DYFODOL
WELL-BEING OF
FUTURE GENERATIONS**



Cefndir

Lansiwyd Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid Cymru ('y Fframwaith') ym mis Gorffennaf 2014. Mae'n nodi cynllun cyffredinol deng mlynedd ar gyfer gwella safonau iechyd a lles anifeiliaid yng Nghymru. Mae'r Fframwaith hefyd yn ceisio diogelu iechyd y cyhoedd a gwneud cyfraniad at yr economi a'r amgylchedd.

Mae'r Fframwaith yn ystyried iechyd a lles yr holl anifeiliaid a gedwir, gan gynnwys anifeiliaid fferm (gan gynnwys dyframaeth a gwenynyddiaeth), anifeiliaid anwes, anifeiliaid sw ac anifeiliaid sy'n ymwneud â chwaraeon. Mae'r Fframwaith hefyd yn berthnasol i anifeiliaid gwyllt lle mae ein gweithgareddau'n effeithio ar iechyd a lles anifeiliaid yn y gwyllt neu lle mae perygl y gallai bywyd gwyllt drosglwyddo clefydau i anifeiliaid eraill neu i bobl.

Mae'r Fframwaith yn ceisio cyflawni pum canlyniad strategol drwy fabwysiadu pum egwyddor allweddol, sy'n parhau i ysgogi'r Cynllun Gweithredu hwn.

Canlyniadau strategol:

- Mae gan Gymru anifeiliaid iach a chynhyrchiol;
- Mae gan anifeiliaid yng Nghymru ansawdd bywyd da;
- Mae gan bobl ffydd a hyder yn y ffordd y cynhyrchir bwyd ac yn y ffordd y diogelir iechyd y cyhoedd;
- Mae gan Gymru economi wledig ffyniannus;
- Mae gan Gymru amgylchedd o ansawdd uchel.

Egwyddorion allweddol:

- Hyrwyddo manteision iechyd a lles anifeiliaid, yn ôl y ddihareb 'Mae atal yn well na gwella';
- Deall a derbyn rolau a chyfrifoldebau;
- Cydweithio â phartneriaid;
- Deall yn well y costau a'r manteision;
- Cynnal a gorfodi safonau mewn modd effeithiol.

Mae'r gwaith o weithredu'r cynllun yn cael ei gefnogi a'i fonitro gan Grŵp Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid Cymru. Mae'r wyth aelod a benodir yn gyhoeddus yn dod â thoreth o brofiad a gwybodaeth ac yn dod o amrediad eang o sectorau a meysydd arbenigedd.

Mae Grŵp y Fframwaith yn gweithio'n agos gyda llawer o sefydliadau a grwpiau diwydiant gan gynnwys Cyswllt Ffermio, yr undebau ffermio, Grŵp Iechyd a Lles Anifeiliaid Cnoi Cil, Rhwydwaith Lles Anifeiliaid Cymru, Cymdeithas Milfeddygon Prydain, a Grŵp Lles Anifeiliaid Anwes Cymru.

Drwy ei rwydweithiau, mae'r Grŵp yn cryfhau'r cysylltiadau rhwng Llywodraeth Cymru, ceidwaid da byw, perchnogion anifeiliaid eraill, y proffesiwn milfeddygol a chynrychiolwyr y diwydiant.

Mae cylch gwaith Grŵp y Fframwaith yn cwmpasu'r holl sbectrwm o heriau iechyd a lles anifeiliaid, ac mae ei aelodau'n chwarae rhan allweddol yn y gwaith o godi ac ystyried materion sy'n dod i'r amlwg a allai effeithio ar y gwaith o gyflawni canlyniadau'r Fframwaith. Mae Grŵp y Fframwaith yn herio polisiâu newydd a pholisiâu sy'n cael eu datblygu, yn adolygu cynnydd, yn hwyluso ac yn symleiddio negeseuon allweddol sy'n cael eu rhannu, ac yn darparu cysylltiadau â'r gymuned amaethyddol a gwledig ehangach ledled Cymru a'r tu hwnt.

Mae'r Cynllun Gweithredu hwn yn cynnwys y ddwy flynedd sy'n weddill o'r Fframwaith deng mlynedd presennol. Dewiswyd ei feysydd â blaenoriaeth o gynigion a wnaed gan gynrychiolwyr rhanddeiliaid – y meysydd y cytunodd y Grŵp mai dyma oedd y meysydd lle y gellid naill ai wneud y gwelliannau mwyaf o fewn cyfnod o ddwy flynedd, neu lle roedd angen gwaith hanfodol i gyflawni nodau hirdymor sylweddol. Bydd meysydd gwaith nad ydynt wedi'u cynnwys yn y camau gweithredu yn awr yn cael eu hystyried fel rhan o'n cynlluniau parhaus.

Yn ystod dwy flynedd olaf y Fframwaith presennol, bydd cyfle i ystyried sut y gallwn hwyluso, annog a hyrwyddo iechyd a lles anifeiliaid ymhellach o fewn y dull 'Un Iechyd, Un Lles, Un Gymru' wrth i sylfeini gael eu gosod ar gyfer y dyfodol. Bydd Fframwaith deng mlynedd newydd yn cael ei lansio yn 2024, gan adeiladu ar gyflawniadau'r gorffennol a pharhau â'r momentwm wrth wella iechyd a lles anifeiliaid yng Nghymru.

Grŵp Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid Cymru – <https://llyw.cymru/grwp-fframwaith-iechyd-lles-anifeiliaid-cymru>

Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid Cymru – <https://llyw.cymru/fframwaith-ar-gyfer-iechyd-lles-anifeiliaid>





Cyflwyniad

Stephen James

Cadeirydd Grŵp Fframwaith

Christianne Glossop

Prif Swyddog Milfeddygol Cymru

Yn ystod y ddwy flynedd diwethaf mae pandemig y coronafeirws wedi effeithio ar bopeth – a daeth i'r amlwg ar yr un pryd ag inni ymadael â'r Undeb Ewropeaidd. Mae'r goblygiadau a'r heriau a ddaeth yn sgil y ddau ddigwyddiad wedi bod yn bellgyrhaeddol ac yn ddifrifol, ac mae'n amlwg y byddant yn effeithio ar ein gwaith ym maes iechyd a lles anifeiliaid am flynyddoedd lawer i ddod.

Dyma ddwy enghraifft yn unig – mae cadwyni cyflenwi wedi bod o dan straen o ganlyniad i brinder staff, fel y mae diwydiannau ffermio a phrosesu ar draws pob sector. O ganlyniad, mae pryderon ynghylch iechyd a lles wedi cynyddu oherwydd bod anifeiliaid yn gorfod aros ar ffermydd. Mae'r pwysau a wynebier gan weithwyr milfeddygol proffesiynol hefyd yn ddigynsail: mae gweithlu llawer llai yn gorfod delio â gofynion newydd, yn ogystal â'u rôl arferol wrth ddarparu, sicrhau a gwella safonau iechyd a lles anifeiliaid.

Mae dull cyfannol o sicrhau'r safonau iechyd a lles anifeiliaid gorau yng Nghymru yn sail i'r Cynllun Gweithredu hwn. Mae'r dyheadau yn ein pennawd yn cyfleu hyn, sef Iechyd i Bawb, Lles i Bawb, Cymru i Bawb. Nid yn unig mae'r dull hwn yn cwmpasu pob

agwedd ar iechyd a lles anifeiliaid, ond hefyd y rhyngweithio cymhleth ag iechyd a lles pobl a'r amgylchedd rydym yn ei rannu.

Mae gweithio gyda'ch milfeddyg eich hun i helpu i gyflawni gwelliannau parhaus (y Cylch Gwella Iechyd Anifeiliaid) yn hanfodol, ac 'mae atal yn well na gwella' yw ein egwyddor graidd o hyd. Mae'n llai tebygol y bydd angen ymyriadau meddygol ar anifeiliaid iachach, ac mae hyn yn ei dro yn helpu i fynd i'r afael ag ymwrthedd i gyffuriau gwrthficrobaidd (AMR) drwy leihau'r defnydd o wrthfiotigau. Mae Cymru ar flaen y gad yn y frwydr yn erbyn AMR, a bydd y manteision nid yn unig ar gyfer iechyd a lles anifeiliaid, ond hefyd ar gyfer iechyd pobl ac yn yr amgylchedd.

Ac o ran y dyfodol, rydym yn cydnabod y bydd system olrhain amlywogaeth newydd yn arf hanfodol wrth sicrhau bod gennym y wybodaeth ddiweddaraf, gan gynnwys statws iechyd, triniaethau, geneteg a symudiadau. Unwaith eto, mae'r wybodaeth hon yn hanfodol wrth inni chwilio am farchnadoedd allforio newydd ac i helpu prynwyr i wneud dewisiadau gwybodus.

Nid yw gweithio mewn partneriaeth erioed wedi bod yn bwysicach inni o

ran cyflawni, diogelu a hyrwyddo'r safonau iechyd a lles anifeiliaid gorau yng Nghymru. Er enghraifft, rydym wedi gweithio'n agos yn ystod y blynyddoedd diwethaf i gefnogi datblygiadau ym Mhrifysgol Aberystwyth, a hithau wedi croesawu ei charfan gyntaf o fyfyrwyr milfeddygol ym mis Medi 2021. Mae'r datblygiad hwn yn ategu Canolfan Ragoriaeth Sêr Cymru ar gyfer TB Mewn Gwartheg ym Mhrifysgol Aberystwyth a'i hymchwil i glefyd sy'n effeithio ar gynifer o fusnesau gwartheg yng Nghymru. Mae'r labordy newydd o'r radd flaenaf, VetHub¹, ynghyd â Chanolfan Gwyddorau Milfeddygol Cymru, yn darparu'r cyfleusterau ar gyfer y gwaith hanfodol hwn.

Rydym hefyd yn ffodus yng Nghymru i gael y cyfle i gydweithio ag Iechyd Da (Gwledig) Cyf a Menter a Busnes, ein Partneriaid Cyflawni Milfeddygol. Mae hyn yn galluogi cysylltiadau effeithlon ac agos â'r diwydiant ffermio, i sicrhau bod cyngor milfeddygol yn berthnasol i bolisiau sy'n cael eu datblygu.


Mae effeithiau amgylcheddol yn hollbwysig i bob un ohonom. Mae gan Lywodraeth Cymru darged i sicrhau sero-net erbyn 2050, a bydd ein dyheadau i sicrhau iechyd i Bawb a Lles i Bawb a gwella bioddiogelwch yn cyfrannu'n sylweddol at hyn.

Mae cynhyrchu, prosesu a chludo pob math o fwyd yn amlwg yn

weithgareddau hanfodol – ond mae hyn hefyd yn cyfrannu'n sylweddol at allyriadau nwyon tŷ gwydr. Gall gwella arferion ffermio er mwyn dal a storio cymaint o garbon ag y bo modd, yn ogystal â lleihau allyriadau, gyfrannu at leihau'r effaith ar newid yn yr hinsawdd. Mae Cymru, gyda'i systemau ffermio helaeth sy'n dibynnu ar borfa, lle mae llawer o garbon yn cael ei storio yn y pridd, mewn sefyllfa dda i arwain y ffordd wrth sicrhau bod amaethyddiaeth yn amgylcheddol gynaliadwy.

Rydym hefyd yn sylweddoli y bydd Cynllun Ffermio Cynaliadwy yng Nghymru yn y dyfodol yn chwarae rhan ganolog yn y gwaith o gefnogi busnesau fferm yng Nghymru i gynhyrchu bwyd mewn modd amgylcheddol gynaliadwy, ac wrth wella iechyd a lles anifeiliaid a chodi pwysigrwydd bioddiogelwch ar ffermydd Cymru.



Strwythur Cynllun Gweithredu 2022–24**Blaenoriaethau Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid Cymru 2022-24**

Adolygiad o Gynllun Gweithredu 2019–2020

Roedd Cynllun Gweithredu 2019–2020 yn bwrw ymlaen â rhai o nodau ac amcanion y cynllun blaenorol, yn ystod adeg ansicr o ganlyniad i'r DU yn ymadael â'r Undeb Ewropeaidd. Fodd bynnag, oherwydd y ffordd yr effeithiodd pandemig y coronafeirws ar bob rhan o'r gymdeithas, a'r pwysau ar Lywodraeth Cymru wrth ddelio ag ef, roedd rhaid estyn y cynllun tan 2021. Drwy gydol y cyfnod hwn, mae Grŵp y Fframwaith wedi parhau i gyflawni ei rôl, ac mae ei gyflawniadau wrth wella iechyd a lles anifeiliaid yng Nghymru wedi bod yn sylweddol.

Yn ystod y pandemig, mae Grŵp y Fframwaith wedi helpu i godi ymwybyddiaeth o'r cymorth sydd ar gael i filfeddygon, ac wedi gweithio gyda Llywodraeth Cymru ar faterion sy'n codi o ganlyniad i'r cyfyngiadau angenrheidiol.

Mae gan Gymru brinder milfeddygon, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig, felly mae Grŵp y Fframwaith wedi croesawu'r Ysgol Gwyddorau Milfeddygol newydd sydd wedi cael ei hagor ym Mhrifysgol Aberystwyth. Rydym yn bwriadu parhau i drafod a chydweithio â'r ysgol newydd.

Cyflawniadau allweddol:

Perchnogaeth gyfrifol:

- Parhawyd i gefnogi perchnogaeth gyfrifol ar gyfer pob anifail a gedwir, a chyfrannwyd at amrywiaeth eang o weithgareddau i annog hyn dros y ddwy flynedd ddiwethaf.

- Croesawyd adolygu parhaus y Codau Ymarfer Lles anifeiliaid ar gyfer pob rhywogaeth, gan gynnwys cyhoeddi Codau diwygiedig ar gyfer Cathod, ac ar gyfer leir Dodwy ac leir Bwyta. Cynrychiolir Grŵp y Fframwaith yn Rhwydwaith Lles Anifeiliaid Cymru, sydd wedi cyhoeddi dau God gwirfoddol yn ddiweddar – Sefydliadau Lles Anifeiliaid: Cod Arferion Gorau a Lles Milgwn Rasio: Cod Ymarfer Gwirfoddol.
- Gwnaeth Grŵp Gorchwyl a Gorffen 53 o argymhellion er lles cŵn bridio a'u cŵn bach yng Nghymru. Arweiniodd hyn at brosiect tair blynedd ar gyfer awdurdodau lleol, a ariennir gan Lywodraeth Cymru, sy'n bwrw ymlaen â llawer o'r argymhellion mewn perthynas â darparu a gorfodi trwyddedau bridio cŵn. Nod y prosiect yw sicrhau bod yr holl gŵn bridio a chŵn bach sy'n cael eu bridio yng Nghymru yn profi safonau iechyd a lles uchel.



- Mae Canllawiau Diwygiedig ar gyfer Awdurdodau Lleol sy'n archwilio sefydliadau bridio cŵn wedi cael eu cyhoeddi'n ddiweddar, sy'n cynnwys y gofyniad i gynnal gwiriadau cynllunio iechyd ac iechyd milfeddygol bob blwyddyn ar gyfer pob anifail bridio a chi bach.
- Mae'r argymhelliad y dylid gwahardd trydydd partion rhag gwerthu cŵn a chathod bach wedi cael ei fabwysiadu o fewn Rheoliadau Lles Anifeiliaid (Trwyddedu Gweithgareddau sy'n Ymwneud ag Anifeiliaid) (Cymru) 2021.
- Gwnaethom fynychu gweithdai rhanddeiliaid ac ymateb i'r ymgynghoriad ar drwyddedu arddangosfeydd anifeiliaid. Arweiniodd hyn at greu Rheoliadau Lles Anifeiliaid (Trwyddedu Arddangosfeydd Anifeiliaid) (Cymru) 2020, a chanllawiau cyfatebol ar gyfer Awdurdodau Lleol.
- Cefnogwyd Deddf Anifeiliaid Gwylt a Syrcasau (Cymru) 2020 sy'n ei gwneud yn drosedd i anifail gwylt berfformio neu gael ei arddangos mewn syrcas deithiol, lle na ellir byth diwallu eu hanghenion lles, enghraifft arall o ddull cryfach Cymru o ddiogelu lles anifeiliaid.
- Parhawyd i gefnogi ymdrechion rhanddeiliaid amaethyddol a lles anifeiliaid i gynyddu ymwybyddiaeth y cyhoedd o berchnogaeth cŵn anghyfrifol a'r effaith ar dda byw, problem sydd wedi cael ei gwaethgu gan gyfyngiadau symud pandemig y coronafeirws.

Atal clefydau:

- Mae'r Cylch Gwella Iechyd Anifeiliaid, ynghyd â safonau bioddiogelwch a lles anifeiliaid, yn cael eu hymgorffori yn y Cynllun Ffermio Cynaliadwy arfaethedig.
- Parhawyd i gefnogi ac annog prosiectau'r Cylch Gwella Iechyd Anifeiliaid yng Nghymru fel Stoc+ HCC a HerdAdvance AHDB.
- Rydym wedi cydweithio ar gynlluniau gwarant fferm i sicrhau bod rhagor o ffocws i gynlluniau iechyd anifeiliaid drwy gynnwys adolygiad blynyddol o'r defnydd o feddyginiaethau milfeddygol.
- Cefnogwyd gwaith Grŵp Cyflawni AMR Cymru, sy'n ceisio lleihau'r angen i ddefnyddio gwrthfotigau mewn anifeiliaid drwy ragnodi cyfrifol, targedu defnydd ac atal clefydau.
- Rydym wedi cefnogi'r gwaith a wnaed gan Arwain Vet Cymru i sefydlu rhwydwaith o Hyrwyddwyr Rhagnodi Milfeddygol mewn practisau fferm ledled Cymru. Y fenter hon, a gafodd ei hariannu gan Lywodraeth Cymru drwy'r Rhaglen Datblygu Gwledig, oedd y gyntaf yn y DU, ac ers hynny mae wedi cael ei mabwysiadu mewn ardaloedd eraill. Ers hynny mae Dr Gwen Rees wedi cael ei chydabod am ei gwaith gydag Arwain Vet Cymru, gan dderbyn Gwobr Effaith Coleg Brenhinol y Milfeddygon am ei chyflawniadau. Mae hon yn enghraifft dda o grwpiau cyflawni yng Nghymru yn gweithio mewn partneriaeth.
- Parhawyd i gysylltu â Chanolfan Gwyddorau Milfeddygol Cymru yn

Aberystwyth a'r Ganolfan Ymchwilio Milfeddygol (labordy) yng Nghaerfyrddin wrth hyrwyddo gwyliadwriaeth filfeddygol i ganfod clefydau.

- Cefnogwyd y gwaith o ddatblygu'r system olrhain amlrywogaeth, sy'n seiliedig ar blatfform EIDCymru, gan ddarparu rhagor o gywirdeb a chyflymder wrth gofnodi symudiadau da byw.
- Parhawyd i gysylltu â rhanddeiliaid a rhoi cyngor i Lywodraeth Cymru ar effaith ymadael â'r UE ar y diwydiant a masnach.
- Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda gweinyddiaethau eraill ar ddull unedig o reoli anifeiliaid sy'n dod i mewn i'r DU. Mae Grŵp y Fframwaith yn cefnogi hyrwyddo mewnforio anifeiliaid a chynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid i mewn i'r DU mewn modd cywir a diogel.
- Croesawyd cyflwyno Unedau Cwarantîn i ddarparu esemptiad o'r cyfnod gwahardd symud statudol, gan ganiatáu symud anifeiliaid unigol yn haws heb beryglu bioddiogelwch.

Dileu clefydau:

- Gwnaethom weithio gyda Llywodraeth Cymru ar y rhaglen dileu TB buchol, gan gynnal trafodaethau â'r diwydiant ar effaith y clefyd, yn enwedig mewn perthynas â buchesi o dan gyfyngiadau hirdymor gyda phroblemau stocio a'r broblem o gadw lloi tarw llaeth.
- Cyfrannwyd at y Grŵp Llywio Gwaredu BVD, gan drafod â Llywodraeth Cymru ynghylch

cynlluniau i gyflwyno'r ddeddfwriaeth angenrheidiol i atgyfnerthu'r gwaith gwirfoddol a wnaed hyd yn hyn, a hefyd wrth annog pobl i barhau i fanteisio ar brofion rhad ac am ddim ar stoc ifanc.

- Hyrwyddwyd yr angen am ddull integredig o fynd i'r afael â'r Clafr, gan gefnogi is-grŵp ar y clafr.
- Parhawyd i hyrwyddo bioddiogelwch da, ymwybyddiaeth o glefydau a gwyliadwriaeth fel amddiffyniadau rheng flaen pwysig yn erbyn achosion o glefydau egsoftig mewn anifeiliaid.
- Gwnaethom weithredu fel rhyngwyneb rhwng Llywodraeth Cymru a'r diwydiant i wella cynllunio wrth gefn, ac i sicrhau ymateb cyflym ac effeithiol i achosion o glefydau anifeiliaid.

<https://llyw.cymru/fframwaith-iechyd-lles-anifeiliaid-cynllun-gweithredu-2019-2020>



Dyheadau Pennawd 2022–2024

Iechyd i Bawb

Mae'r cysyniad Iechyd i Bawb yn cydnabod bod Iechyd pobl ac Iechyd anifeiliaid yn dibynnu ar ei gilydd ac ar Iechyd yr amgylchedd y maent yn ei rannu. Mae'r dull hwn yn canolbwyntio ar sicrhau canlyniadau gwell ar gyfer y cyhoedd drwy gydweithio a chyfathrebu mwy effeithiol ar draws sawl sector, gydag arbenigwyr yn gweithio ar y cyd i ddysgu am y ffordd mae clefydau yn lledaenu ymhlith pobl, anifeiliaid, planhigion ac yn yr amgylchedd. Mae hyn yn arbennig o berthnasol wrth ystyried diogelwch bwyd, milheintiau ac AMR (ymwrthedd i gyffuriau gwrthficrobaidd).

Mae pandemig y coronafeirws wedi dangos effaith ddinistriol milheintiau ar raddfa fyd-eang, ac ni all ymdrechion un sector yn unig atal na dileu problemau o'r fath. Mae'r pandemig wedi dangos dull Iechyd i Bawb ar waith, gyda'r angen i gydweithio ar draws sawl sector, gan gynnwys epidemioleg, Iechyd y cyhoedd, meddygaeth filfeddygol, diogelwch bwyd ac ecoleg clefydau. Amlygwyd yr angen am ddull cydgysylltiedig ar gyfer profi, brechu a bioddiogelwch, gyda phawb sy'n gysylltiedig â chynhyrchu bwyd yn cael eu hystyried yn weithwyr allweddol, gan ddangos pwysigrwydd ein diwydiant amaethyddol a'n cadwyn cyflenwi bwyd.

Nid milheintiau yn unig sy'n peri risg i Iechyd i Bawb, ond unrhyw glefyd sy'n effeithio ar Iechyd anifeiliaid, oherwydd yr effeithiau ar gynhyrchiant. Wrth i boblogaeth y byd dyfu, a'r pwysau ar y

rhai sy'n cynhyrchu bwyd gynyddu, mae'r cysyniad Iechyd i Bawb yn dod yn fwyfwy pwysig. Felly, mae'n bwysig canolbwyntio ar leihau effaith clefydau anifeiliaid, er mwyn sicrhau'r cyflenwad bwyd a lleihau'r potensial ar gyfer problemau Iechyd y cyhoedd difrifol a achosir gan brinder bwyd a diffyg protein.

Fodd bynnag, nid clefydau anifeiliaid yn unig sy'n gallu effeithio ar y cyflenwad bwyd, fel y gwelsom o'r tarfu a achoswyd gan brinder gyrwyr cludo nwyddau. Rhaid sicrhau diogelwch bwyd wrth ar yr un pryd gefnogi'r amgylchedd rydym yn byw ac yn cynhyrchu ein bwyd ynddo, drwy gymryd camau i leihau (a dechrau gwrthdroi) effaith gweithgareddau dynol presennol ar ein hinsawdd a bioamrywiaeth.

Pam mae Iechyd i Bawb yn bwysig i Grŵp y Fframwaith

Mae hyrwyddo'r egwyddor Iechyd i Bawb yn bodloni pum canlyniad strategol Grŵp y Fframwaith drwy ei nodau o wella Iechyd pobl, Iechyd anifeiliaid a'r amgylchedd yr ydym yn cydfodoli ynddo. Mae'r rhain yn bodloni nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Beth gellir ei wneud?

- Parhau i hyrwyddo'r egwyddor Iechyd i Bawb – yr angen i ystyried Iechyd pobl, Iechyd anifeiliaid a'r amgylchedd gyda'i gilydd mewn

modd cyfunol, yn hytrach nag fel endidau ar wahân.

- Sicrhau bod yr egwyddor Iechyd i Bawb yn cael ei hymgorffori mewn rhaglenni rhannu gwybodaeth sy'n canolbwyntio ar iechyd anifeiliaid yng Nghymru, ac yn ehangu dealltwriaeth y cyhoedd.
- Ymgorffori'r dull Iechyd i Bawb yn y Cynllun Ffermio Cynaliadwy.
- Parhau i hyrwyddo agweddau allweddol yr egwyddor Iechyd i Bawb, gan gynnwys bioddiogelwch, y Cylch Gwella Iechyd Anifeiliaid a defnyddio gwrthfotigau a meddyginiaethau milfeddygol eraill mewn modd cyfrifol.
- Lobio i sicrhau bod pob agwedd ar yr egwyddor Iechyd i Bawb yn cael ei hystyried mewn cytundebau masnachu rhyngwladol, gan geisio osgoi risgiau i iechyd anifeiliaid neu beryglu mesurau amgylcheddol.

Pa ganlyniadau yr hoffem eu cyflawni?

Gwella iechyd y cyhoedd drwy welliannau i iechyd anifeiliaid a'r amgylchedd yr ydym yn byw ynddo. Cydnabod y mesurau sydd ar waith yng Nghymru i sefydlu dull cyfunol o ymdrin ag iechyd, fel y model ar gyfer ffermio cynaliadwy sy'n gwella ein hamgylchedd a'n cymunedau.

Drwy hyrwyddo gweithio mewn partneriaeth a chydweithio ar draws pob sector, bydd dull cyfunol o ymdrin ag iechyd yn sicrhau'r canlyniadau iechyd gorau i bobl, anifeiliaid a phlanhigion mewn amgylchedd a rennir.

Lles i Bawb

Mae'r dull cyfunol hwn o ymdrin â Lles yn pwysleisio'r rhyngddibyniaeth rhwng lles anifeiliaid, lles pobl a chynaliadwyedd amgylcheddol, ac mae'n estyniad o'r egwyddor Iechyd i Bawb. Mae Lles i Bawb yn ystyried nid yn unig les ac iechyd corfforol anifeiliaid a phobl, ond hefyd eu lles yn gyffredinol. Mae'n berthnasol i bob anifail a gedwir: anifeiliaid fferm, anifeiliaid anwes, anifeiliaid a ddefnyddir at ddibenion hamdden, a hefyd i anifeiliaid gwyllt.

Er mwyn ffynnu, mae dull Lles i Bawb yn gofyn am ethos cydweithredol gan bawb sy'n gysylltiedig â lles anifeiliaid, gan gynnwys ffermwyr, ceidwaid anifeiliaid anwes, milfeddygon, y diwydiant bwyd, gwyddonwyr amgylcheddol a llywodraethau. Mae manteision llwyddo yn gyfoethog. Er enghraifft, mae gwella safonau lles anifeiliaid ac ansawdd cynnyrch sy'n dod o anifeiliaid yn gwneud cyfraniad sylweddol at fodloni disgwyliadau'r cyhoedd am fwyd mwy diogel a gwell. Yn ei dro, mae hyn yn gwella cyfleoedd i hyrwyddo a marchnata allbynnau o ansawdd uchel i gefnogi ffermwyr a chymunedau gwledig.

Mae effaith negyddol newid yn yr hinsawdd ar iechyd a lles anifeiliaid a phobl a'n hamgylchedd yn dod yn fwyfwy amlwg. Gall tywydd eithafol achosi difrod i dir ac eiddo, tarfu ar gyflenwadau dŵr a bwyd/porthiant a pheri dirfod difrifol i fywyd gwyllt a chynefinoedd naturiol. Yn y cyd-destun hwn, mae'n bwysig i berchnogion anifeiliaid wneud addasiadau i ddiogelu lles anifeiliaid wrth i

dymheredd a phatrymau tywydd newid. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi cynllun ymaddasu i newid yn yr hinsawdd i Gymru, sef 'Ffyniant i Bawb: Cymru sy'n Effro i'r Hinsawdd', a disgrifir ymrwymiad Cymru i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd yn 'Ffyniant i Bawb: Cymru Carbon Isel'.

Mae tystiolaeth glir o fanteision dod i gysylltiad ag anifeiliaid ar gyfer lles. Mae cysylltiadau hefyd rhwng rhai achosion o drais domestig a cham-drin ac esgeuluso anifeiliaid. Gall sicrhau bod pob asiantaeth yn ymwybodol o'r cysylltiad ac yn adrodd am unrhyw bryderon wella'r sefyllfa ar gyfer anifeiliaid a pherchnogion.

Pam mae Lles i Bawb yn bwysig i Grŵp y Fframwaith

Mae hyrwyddo Lles i Bawb yn bodloni nodau'r Fframwaith o ran sicrhau bod anifeiliaid yn iach ac yn cael ansawdd bywyd da mewn amgylchedd o ansawdd uchel, ac mae'n ymateb i heriau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Beth gellir ei wneud?

- Cefnogi'r gwaith o gydnabod a gwobrwyo safonau lles anifeiliaid uchel yn y Cynllun Ffermio Cynaliadwy arfaethedig.
- Sicrhau bod y cysyniad Lles i Bawb yn rhan annatod o brosiectau rhannu gwybodaeth, fe Cyswllt Ffermio.
- Cyfrannu at y gwaith o ddatblygu mesuriadau i ddangos gwelliannau i les anifeiliaid a'u heffaith ehangach.
- Lloïo dros gynnal safonau lles anifeiliaid uchel mewn cytundebau masnach rhyngwladol.

- Rhannu manteision Lles i Bawb â phob ceidwad anifeiliaid a'r cyhoedd.

Pa ganlyniadau yr hoffem eu cyflawni?

Hoffem weld Cymru yn cael ei chydabod fel gwlad sy'n hyrwyddo'r rhyng-gysylltiadau rhwng lles anifeiliaid, iechyd anifeiliaid, yr amgylchedd, a ffyniant a lles pobl. Ochr yn ochr â hyn, rydym yn parhau i hyrwyddo pwysigrwydd sylfaenol lles anifeiliaid er mwyn gwella cydnerthedd ymhlith y rhai sy'n cadw anifeiliaid a'u cymunedau, a lleihau nifer yr achosion o gam-drin ac esgeuluso anifeiliaid.

Ble gallwch gael rhagor o wybodaeth?

<https://llyw.cymru/lles-anifeiliaid>

<https://llyw.cymru/ffyniant-i-bawb-cymru-syn-effro-ir-hinsawdd>

<https://llyw.cymru/cynllun-cyflawni-carbon-isel>



Bioddiogelwch

Mae bioddiogelwch yn hanfodol i iechyd a lles yr holl anifeiliaid a gedwir, boed yn anifeiliaid fferm (gan gynnwys dyframaeth a gwenynyddiaeth), anifeiliaid anwes, anifeiliaid sw neu anifeiliaid sy'n ymwneud â chwaraeon.

Mae risg y bydd unrhyw anifail neu grŵp o anifeiliaid yn cyflwyno clefyd a'u lledaenu ymhellach. Mae bioddiogelwch yn diffinio'r camau gweithredu a gymerir ar y cyd i leihau'r risg honno, gan ystyried:

- symud anifeiliaid i safle – asesu eu statws iechyd, trefniadau cwarantîn neu ynysu, profion iechyd ac unrhyw driniaethau neu frechlyn sydd eu hangen cyn gadael iddynt gymysgu â'r boblogaeth leol;
- diogelwch ffiniau â safleoedd da byw cyffiniol, er mwyn lleihau'r risg o gyflwyno clefydau;
- symud cerbydau ac offer ar y safle ac oddi arno – dynodi llwybrau a lleoedd parcio penodol a sicrhau glanhau a diheintio priodol;
- rheoli mynediad gan bobl i'r safle ac oddi arno – lleihau nifer yr ymwelwyr, cadw cofnodion, sicrhau bod dillad ac esgidiau'n lân ac wedi'u diheintio;
- rheoli gwastraff yn ddiogel – gan gynnwys stoc trig, tail a slyri, a chyrchu a storio bwydydd anifeiliaid mewn modd diogel.

Rhaid i bob daliad da byw asesu ei risgiau ei hun, a rhoi mesurau ar waith i fynd i'r afael â'r risgiau hyn drwy gynllun bioddiogelwch, fel rhan annatod o'r Cylch Gwella Iechyd Anifeiliaid ar gyfer y boblogaeth honno.

Mae cynllun bioddiogelwch effeithiol, sy'n cael ei adolygu a'i wella'n barhaus, yn helpu i atal clefydau rhag cael eu cyflwyno a rhag cael eu lledaenu rhwng ac o fewn ffermydd. Mae bioddiogelwch da hefyd yn diogelu iechyd y rhai sy'n ymwneud yn uniongyrchol â gofalu am anifeiliaid, a'r cyhoedd yn ehangach o ran diogelwch ac ansawdd y cynhyrchion bwyd. Rhaid i unigolion ddiogelu eu hunain a'r amgylchedd drwy gymryd camau ataliol drostynt eu hunain a'r anifeiliaid y maent yn gofalu amdanynt. Mae pawb yn gyfrifol am fioddiogelwch

Pam mae Bioddiogelwch yn bwysig i Grŵp y Fframwaith

Mae rhai clefydau'n cael effaith genedlaethol ddifrifol fel Clwy'r Traed a'r Genau, Clwy'r Moch, Ffliw Adar a TB Buchol. Bioddiogelwch effeithiol yw'r amddiffyniad rheng flaen ac mae'n cyd-fynd â'r egwyddor 'mae atal yn well na gwella'.

Mae bioddiogelwch yn parhau i fod yn flaenoriaeth i Grŵp y Fframwaith gan ei fod yn:

- cyd-fynd â'r dulliau Iechyd i Bawb a Lles i Bawb drwy ddiogelu iechyd pobl ac anifeiliaid, lles anifeiliaid a diogelu'r amgylchedd
- helpu diwydiant i atal, rheoli a dileu clefydau costus, gan ddiogelu'r diwydiant a lleihau'r gost iddyn nhw a'r gymdeithas ehangach
- helpu i leihau'r gwrthfotigau a meddyginiaethau milfeddygol eraill sy'n cael eu defnyddio
- hyrwyddo ffermio cynaliadwy sy'n cyfrannu at ffermydd cydnerth a chynhyrchiol, gan ddiogelu bywyd gwyllt a chynefinoedd, a thrwy

hynny gael llai o effaith ar yr amgylchedd

Beth gellir ei wneud?

- Comisiynu arolwg newydd i ailasesu lefel y ddealltwriaeth o fioggiogelwch; cymharu'r canlyniadau ag arolwg 2015 i nodi meysydd i'w gwella, cynghori ar gynllun gweithredu a goruchwylio'r gwaith o'i gyflawni.
- Ar y cyd â sefydliadau milfeddygol, comisiynu arolwg o effeithiolrwydd biddiogelwch wrth gynllunio iechyd anifeiliaid.
- Hyrwyddo negeseuon allweddol ac arferion da.
- Sicrhau bod biddiogelwch da'n parhau i fod yn rhan ganolog o'r thema iechyd a lles anifeiliaid o fewn Cyswllt Ffermio ac unrhyw strategaethau perthnasol eraill.
- Gweithio gyda sefydliadau gwarant fferm i ymgorffori biddiogelwch yn safonau'r cynllun a datblygu mecanweithiau i fesur effeithiolrwydd.

- Ystyried biddiogelwch ceffylau fel rhan o'r ymgyrch biddiogelwch gyffredinol
- Ymgorffori biddiogelwch fel rhan sylfaenol o unrhyw Gynllun Ffermio Cynaliadwy.
- Sicrhau bod biddiogelwch (gan gynnwys mewn perthynas ag anifeiliaid anwes) yn cael ei ystyried mewn unrhyw gynigion a ddatblygir gan Grŵp y Fframwaith yn ystod 2022–2024.

Pa ganlyniadau yr hoffem eu cyflawni?

Lleihau nifer yr achosion o glefydau, gwella iechyd a lles anifeiliaid ar lefel safle ac yn genedlaethol, a chefnogi economi wledig gynhyrchiol a ffyniannus.

Ble gallwch gael rhagor o wybodaeth?

<https://llyw.cymru/biddiogelwch-canllawiau>



Atal Clefydau

Un o brif egwyddorion y Fframwaith yw bod atal yn well na gwella er mwyn lleihau risg ac effaith clefydau. Ni waeth pa glefyd yr ydym yn pryderu amdano, mae'r drefn sylfaenol yn aros yr un fath:

- Cadw haint allan
- Nodi heintiau'n gynnar
- Atal yr haint rhag lledaenu
- Cael gwared â'r haint a/neu ddatblygu rhaglenni i reoli'r broblem

Drwy'r Cynllun Gweithredu hwn, byddwn yn parhau i hyrwyddo atal clefydau anifeiliaid heintus rhag cael eu cyflwyno a'u lledaenu, sicrhau cydnherthedd a diogelu ein heconomi amaethyddol. Rydym yn credu y gallwn gyflawni hyn drwy ddefnyddio cynlluniau bioddiogelwch, defnyddio'r Cylch Gwella Iechyd Anifeiliaid, defnyddio meddyginiaethau mewn modd mwy cynaliadwy, gwella lles anifeiliaid, a gwella'r ffordd rydym yn adnabod ac yn olrhain anifeiliaid ledled Cymru.

Mae hefyd yn bwysig sicrhau bod gwyliadwriaeth briodol ar waith i nodi clefydau sy'n effeithio ar anifeiliaid a gedwir ac anifeiliaid gwyllt, gan gynnwys anifeiliaid fferm (a dyframaeth a gwenynyddiaeth), anifeiliaid anwes, anifeiliaid sw ac anifeiliaid sy'n ymwneud â chwaraeon, yn ogystal â phoblogaethau bywyd gwyllt. Mae mentrau domestig fel rhaglen sgrinio BVD wirfoddol a rhaglenni rheoli salmonela yn cyfrannu at ein dealltwriaeth o ble y gall clefydau ddechrau a lledaenu.



Drwy fonitro'r sefyllfa mewn perthynas â chlefydau yn rhyngwladol, gallwn hefyd ddeall yn well pa fygythiadau sy'n dod i'r amlwg a chlefydau a all ddigwydd yng Nghymru, ac yn fwy cyffredinol ar draws Prydain Fawr – er enghraifft drwy fonitro patrymau mudo poblogaethau o adar gwyllt, gwybed tymhorol y gall y gwynt eu cludo i Brydain Fawr, a lledaeniad clefydau ymhlith baedd gwyllt yn Ewrop.

Rydym wedi ymrwymo i gefnogi'r gwaith o atal a lliniaru'r effaith negyddol y gallai clefydau anifeiliaid ei chael ar y gallu i farchnata cynnyrch o Gymru wrth chwilio am gyfleoedd masnachu yn y dyfodol, a datblygu a hyrwyddo nwyddau sy'n tarddu o Gymru.


Byddwn yn parhau i gynnal trafodaethau ag asiantaethau cyflawni, y diwydiant amaethyddol, asiantaethau'r trydydd sector a rhanddeiliaid cymunedol gwledig i ddarparu tystiolaeth a chyngor i ategu gwaith Llywodraeth Cymru o ddatblygu polisiau sy'n parhau i leihau'r risg o achosion o glefydau anifeiliaid a'r tarfu cysylltiedig ar yr economi a gweithrediadau.

Cylch Gwella Iechyd Anifeiliaid

Ar y cyd â Grŵp y Fframwaith, datblygodd Llywodraeth Cymru gysyniad newydd ar gyfer cynllunio iechyd anifeiliaid yng Nghymru yn 2017, sydd bellach wedi'i ailenwi'r Cylch Gwella Iechyd Anifeiliaid.

Mae'r Cylch Gwella Iechyd Anifeiliaid yn broses, a'i nod yw ysgogi cynhyrchiant, proffidioldeb a chynaliadwyedd busnesau da byw, drwy sicrhau'r iechyd a'r lles gorau posibl i anifeiliaid.

Mae proses y Cylch Gwella Iechyd Anifeiliaid yn dechrau ac yn gorffen gyda dadansoddiad o berfformiad i geisio gwelliannau parhaus i iechyd a lles anifeiliaid ar ffermydd – yn bennaf atal bygythiadau i dda byw gan glefydau. Dylai'r dadansoddiad o berfformiad gynnwys cydweithio'n agos rhwng y ceidwad, ei filfeddyg – a chynghorwyr eraill lle bo hynny'n fuddiol, gan edrych ar y data ffisegol ac yn ddelfrydol y data ariannol hefyd.



Ar hyn o bryd dwy fenter allweddol sy'n cyflawni proses y Cylch Gwella Iechyd Anifeiliaid ledled Cymru, ac maent yn cael eu hariannu drwy'r Rhaglen Datblygu Gwledig. Mae prosiect HerdAdvance AHDB, sy'n rhan o Raglen Gwella'r Sector Llaeth, yn gweithio gyda thua 500 o ffermwyr llaeth Cymru, ac mae prosiect Stoc + HCC, sy'n rhan o'r Rhaglen Datblygu Cig Coch, wedi'i anelu at 500 o gynhyrchwyr cig oen a chig eidion. Mae'r ddau brosiect peilot wedi bod yn cyflwyno camau ymarferol i fusnesau ffermio er mwyn sefydlu Cylch Gwella Iechyd Anifeiliaid ers 2018, a byddant yn parhau i wneud hynny tan 2023.

Y cam nesaf yw annog pob ceidwad da byw a milfeddyg yng Nghymru i roi arferion y Cylch Gwella Iechyd Anifeiliaid ar waith yn gyson, a deall y manteision i fusnesau ffermio, iechyd a lles a'r amgylchedd, gan gyd-fynd ag Iechyd i Bawb, Lles i Bawb, ein dull cyfunol cenedlaethol o ymdrin ag Iechyd a Lles.

Beth gellir ei wneud?

Mae Grŵp y Fframwaith wedi nodi meini prawf allweddol ar gyfer Cylch Gwella Iechyd Anifeiliaid llwyddiannus:

- Mae'r Cylch Gwella Iechyd Anifeiliaid yn seiliedig ar ddadansoddi perfformiad y fuches neu'r ddiadell, felly rhaid i'r wybodaeth hon (data) fod ar gael yn rhwydd.
- Rhaid bod perthynas gadarnhaol sy'n seiliedig ar ymddiriedaeth rhwng y ceidwad da byw a'r milfeddyg.
- Mae angen ymgynghori â gweithwyr proffesiynol eraill, megis

maethegwyr ac arbenigwyr geneteg lle bo hynny'n briodol.

- Dylai'r dadansoddiad nodi meysydd i'w gwella a blaenoriaethu'r rhai lle mae'r angen am newid ar ei fwyaf.
- Dylid cytuno ar ymyriadau sy'n seiliedig ar weithredu, eu mesur a'u rhoi ar waith, gydag adolygiadau rheolaidd nes bod y gwelliannau a ddymunir wedi cael eu cyflawni a'u cynnal.

Byddwn yn defnyddio pob dull sydd ar gael i hysbysu ffermwyr a milfeddygon am fanteision y Cylch Gwella Iechyd Anifeiliaid, gan gynnwys rhaglen Cyswllt Ffermio. Mae hyn yn cynnwys cymorth gan AHDB a HCC i barhau i gyflawni eu prosiectau Cylch Gwella Iechyd Anifeiliaid allweddol, gan ddarparu cyngor amserol ar Iechyd a Lles anifeiliaid, rhannu'r arferion gorau a rhoi camau ar waith i sicrhau bod canlyniadau eu gwaith yn parhau.

Mae arweinwyr prosiectau wedi gweithio'n agos gyda ffermwyr a milfeddygon sy'n cymryd rhan i wella ansawdd y data a'r ffordd mae'n cael ei gasglu, a byddant yn cynnal dadansoddiadau cost a budd i brofi llwyddiant ymyriadau, ynghyd ag adborth ac astudiaethau achos – bydd y rhain yn bwysig ar gyfer hyrwyddo'r Cylch Gwella Iechyd Anifeiliaid ar ôl i'r prosiectau ddod i ben.

Bydd y Cylch Gwella Iechyd Anifeiliaid hefyd yn cael ei gynnwys fel rhan annatod o'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy a fydd yn cael ei gyflwyno yn 2025. Bydd ceidwaid da byw yn derbyn cymhellion a chymorth i roi arferion y Cylch Gwella Iechyd Anifeiliaid ar waith, i sicrhau safonau

bioddiogelwch da ac i ddiogelu iechyd a lles anifeiliaid er mwyn elwa ar y cynllun, ac o ganlyniad sicrhau bod eu hanifeiliaid yn iach ac yn cael ansawdd bywyd da, a bod bwyd yn ddiogel i ddefnyddwyr.

Pa ganlyniadau yr hoffem eu cyflawni?

Ein nod yw i bob uned da byw yng Nghymru ddefnyddio'r Cylch Gwella Iechyd Anifeiliaid fel rhan hanfodol o'u busnes, yn seiliedig ar yr egwyddor allweddol 'mae atal yn well na gwella'.

Gall Cylch Gwella Iechyd Anifeiliaid sicrhau manteision enfawr ar gyfer busnesau fferm unigol a'r diwydiant ehangach, gan gynnwys safonau gwell o iechyd a lles anifeiliaid, cynhyrchiant ac elw uwch – ynghyd â sicrhau bod busnesau'n fwy cadarn.

Felly, mae manteision parhau i wella arferion Cylch Gwella Iechyd Anifeiliaid yn glir, ac os ydynt yn cael eu defnyddio mewn modd cyson, byddant yn cefnogi nodau'r Fframwaith ar gyfer Iechyd a Lles Anifeiliaid yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys rôl bwysig ein hegwyddorion Iechyd i Bawb a Lles i Bawb ar gyfer amgylchedd iachach. Gall y Cylch Gwella Iechyd Anifeiliaid gyfrannu at y frwydr yn erbyn newid yn yr hinsawdd, ac ymdrechion ein Cynlluniau Cyflawni Carbon Isel i adeiladu economi gryfach a gwyrddach, drwy reoli llawer o glefydau endemig, gan y byddai hyn, mae'n debyg, yn arwain at ostyngiadau mwy i allyriadau nwyon tŷ gwydr.

Mae'r Cylch Gwella Iechyd Anifeiliaid yn canolbwyntio ein hymdrechion i

wneud gwelliannau i iechyd ar ffermydd da byw Cymru. Bydd cyflwyno dulliau sydd wedi cael eu treialu, eu profi a'u hasesu ar gyfer effeithlonrwydd ar bob fferm da byw yng Nghymru yn gwella effeithlonrwydd ffermydd ac yn gwella arferion lles a bioddiogelwch. Y gobaith yw y bydd y data a gesglir o brosiectau HerdAdvance a Stoc+, ar ôl iddynt gael eu cwblhau yn 2023, yn rhoi syniad o faint yr ymdrech sy'n cael ei gwneud i gynyddu effeithlonrwydd da byw ac o ganlyniad yn lleihau allyriadau.

Beth bydd Grŵp y Fframwaith yn ei wneud i gefnogi'r amcanion hyn?

Bydd Grŵp y Fframwaith yn cefnogi Llywodraeth Cymru mewn ymgyrch gyfathrebu gynyddol i hyrwyddo manteision y Cylch Gwella Iechyd Anifeiliaid, i rannu hanes prosiectau HerdAdvance a Stoc+ llwyddiannus ac i baratoi'r diwydiant ar gyfer elfen y Cylch Gwella Iechyd Anifeiliaid yn y Cynllun Ffermio Cynaliadwy.

Ble gallwch gael rhagor o wybodaeth?

AHDB:

www.ahdb.org.uk/herdadvance-2

Hybu Cig Cymru:

<https://meatpromotion.wales/cy>

Defnyddio Meddyginiaethau mewn Modd Cynaliadwy

Ymwrthedd i Gyffuriau Gwrthficrobaidd

Mae gwrthfotigau yn feddyginiaethau hanfodol ar gyfer iechyd pobl ac anifeiliaid. Mae ymwrthedd i gyffuriau gwrthficrobaidd (AMR) yn codi pan fydd yr organebau sy'n achosi haint yn datblygu neu'n caffael ffyrdd o oroesi triniaeth.



Mae cynnydd a lledaeniad AMR yn bwgwrth y gallu i reoli heintiau mewn pobl ac mewn anifeiliaid. Mae effeithiau methu mynd i'r afael ag AMR yn helaeth ac yn gostus iawn, nid yn unig yn ariannol ond hefyd o ran iechyd byd-eang, diogelu cyflenwadau bwyd, lles yr amgylchedd a datblygu economaidd-gymdeithasol.

Mae AMR yn bryder difrifol ac mae angen defnyddio gwrthfotigau mewn modd cyfrifol ym mhob sector, gan gynnwys cynhyrchu da byw, i helpu i fynd i'r afael â'r broblem.

Beth gellir ei wneud?

Mewn ymateb i fygythiad AMR, sefydlwyd Grŵp Cyflawni Cymru ar Ymwrthedd Gwrthficrobaidd Anifeiliaid a'r Amgylchedd ar 13 Mai 2019. Argymhellodd y Grŵp Gynllun Gweithredu i fynd i'r afael ag AMR mewn Anifeiliaid ac yn yr Amgylchedd i Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a

Materion Gwledig, a chyhoeddwyd y cynllun hwn ym mis Gorffennaf 2019.

Y pum prif amcan a amlinellir yn y Cynllun Gweithredu yw:

- Lleihau'r risg o ddod i gysylltiad â chyffuriau gwrthficrobaidd yn ddiangen
- Defnyddio cyffuriau gwrthficrobaidd ar anifeiliaid yn y ffordd fwyaf effeithlon posibl
- Lleihau lledaeniad AMR drwy'r amgylchedd
- Cynyddu capasiti labordai a chryfhau prosesau ar gyfer monitro AMR mewn anifeiliaid
- Buddsoddi mewn arloesi, cyflenwi a mynediad er mwyn mynd i'r afael ag AMR

Mae Llywodraeth Cymru yn gweithredu iechyd i Bawb, y dull cyfunol o ymdrin ag iechyd, drwy fynd i'r afael â'r agweddau ar fygythiad AMR sy'n ymwneud â phobl, anifeiliaid a'r amgylchedd gyda'i gilydd. Mae'r Grŵp Cyflawni yn gweithio'n agos gydag arbenigwyr milfeddygol, meddygol a gwyddonol, i gyflawni'r nodau yn y Cynllun Gweithredu ar gyfer Cymru.

Mae cynllunio iechyd anifeiliaid yn dda, bioddiogelwch, strategaethau brechu priodol ac arferion hylendid yn hanfodol er mwyn lleihau achosion o glefydau, ac o ganlyniad leihau'r angen am ddefnyddio gwrthfotigau.

Pa ganlyniadau yr hoffem eu cyflawni?

Rydym yn gweithio'n agos gyda ffermwyr a milfeddygon ac mae cyllid ar gael i helpu i gefnogi'r gwaith o reoli AMR mewn anifeiliaid a'r amgylchedd. Bydd DGC (Defnydd Gwrthfoteg Cyfrifol) Cymru yn cyflawni nifer o brosiectau pwrpasol yng Nghymru. Bydd y prosiectau'n canolbwyntio ar y canlynol:

- Datblygu'r Rhwydwaith Hyrwyddwyr Rhagnodi Milfeddygol, wedi'i sefydlu fel rhan o Arwain Vet Cymru.
- Datblygu canllawiau rhagnodi cenedlaethol ar gyfer gwartheg a defaid.
- Darparu cod ymddygiad gwirfoddol ar gyfer rhagnodi cyffuriau gwrthficrobaidd ar draws arferion fferm.
- Defnyddio technoleg newydd i gasglu data ar y ffordd mae cyffuriau gwrthficrobaidd yn cael eu defnyddio, ac i archwilio bioddiogelwch ac atebion amaethyddol manwl gywir.
- Deall y cysylltiadau rhwng defnyddio cyffuriau gwrthficrobaidd ar dda byw ac AMR, a chynllunio rhaglen fonitro weithredol ar gyfer Cymru.
- Deall patrymau defnyddio cyffuriau gwrthficrobaidd yn y diwydiant ceffylau.
- Lleihau lledaeniad AMR drwy'r amgylchedd.
- Cyflawni rhaglenni rhannu gwybodaeth am stiwardiaeth cyffuriau gwrthficrobaidd ar gyfer milfeddygon, ffermwyr a pherchnogion ceffylau
- Ymgysylltu effeithiol â rhanddeiliaid.

Rhan allweddol a mawr o'n Cynllun Gweithredu Pum Mlynedd i Fynd i'r Afael ag AMR mewn Anifeiliaid ac yn yr Amgylchedd yw 'Atal a rheoli heintiau'. Mae hyn yn cyd-fynd yn agos ag egwyddor ein Fframwaith 'mae atal yn well na gwella'. Byddwn yn ymgorffori'r dull gweithredu hwnnw yn y Cynllun Ffermio Cynaliadwy newydd, drwy wobrwyo ceidwaid anifeiliaid am weithredu'r Cylch Gwella Iechyd Anifeiliaid a chynnal safonau bioddiogelwch da.

Hoffem hefyd ystyried dulliau a fydd yn cefnogi milfeddygaeth anifeiliaid bach, a byddwn yn edrych ar opsiynau i gasglu data ar batrymau rhagnodi presennol, fel llinell sylfaen, ac i

sefydlu ymwybyddiaeth o AMR. Bydd hyn yn ein helpu i ddatblygu dealltwriaeth o pam, pryd a sut y defnyddir cyffuriau gwrthficrobaidd yn y sector hwn.

Yn allweddol i bob dull gweithredu bydd y berthynas weithio agos â rhanddeiliaid. Y gobaith yw y bydd dull cydgysylltiedig rhwng y llywodraeth, ceidwaid anifeiliaid a milfeddygon yn atal ac yn rheoli lledaeniad clefydau heintus ac yn lleihau'r angen am y gwrthfotigau a ddefnyddir i'w trin.

Beth bydd Grŵp Fframwaith Cymru yn ei wneud i gefnogi'r amcanion hyn?

Mae Grŵp Cyflawni Cymru ar Ymwrthedd Gwrthficrobaidd Anifeiliaid a'r Amgylchedd yn adrodd i Grŵp y Fframwaith ac i Grŵp Llywio Cymru ar AMR / Heintiau sy'n Gysylltiedig â Gofal Iechyd, sy'n cael ei arwain gan swyddfa Prif Swyddog Meddygol Cymru.

Mae Grŵp Cyflawni ar AMR hefyd yn cynnwys cynrychiolydd o Grŵp y Fframwaith, i sicrhau bod dulliau gweithredu yn gydgysylltiedig ac yn gyson.

Byddwn yn gweithio gyda chynlluniau gwarant fferm i gasglu gwybodaeth am ddefnyddio gwrthfotigau ar ffermydd defaid, cig eidion a llaeth Cymru. Bydd Grŵp y Fframwaith yn annog ffermwyr i gymryd rhan yn y broses hon.

Mae'n hanfodol bod gwrthfotigau'n parhau i fod yn effeithiol, fel y gall cenedlaethau'r dyfodol eu defnyddio, yn unol â nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Ble gallwch gael rhagor o wybodaeth?

<https://llyw.cymru/grwp-cyflawni-ar-ymwrthedd-gwrthficrobaidd-mewn-anifeiliaid-ar-amgylchedd>

www.wlbp.co.uk/cy/

<https://menterabusnes.cymru/arwaindgc/2021/10/05/datganiadau-ir-wasg/>



Meddyginiaethau Gwrthlyngyr

Mae anifeiliaid pori mewn perygl o gael clefydau parasitig oni chymerir camau gweithredol i'w diogelu. Mae defnyddio meddyginiaethau gwrthlyngyr (gwaredu llyngyr) effeithiol yn rheolaidd a chadw at drefniadau pori wedi llwyddo i gadw llyngyr o dan reolaeth yn y rhan fwyaf o ddiadellau am flynyddoedd lawer. Ond mae dibynnu ar y triniaethau hyn wedi arwain at ymwrthedd i'r cyffuriau a ddefnyddir. Mae nifer cynyddol o ffermwyr yn canfod nad yw nifer o'r triniaethau bellach yn effeithiol wrth reoli rhai rhywogaethau o lyngyr. Mae'n debyg iawn nad yw dibynnu ar nifer cyfyngedig o feddyginiaethau gwrthlyngyr i reoli parasitiaid yn arfer cynaliadwy.

Ynghyd â hyn, mae tystiolaeth bod rhai dosbarthiadau o feddyginiaethau

gwrthlyngyr a gwrthbarasitiaid yn cael effeithiau negyddol ar fioamrywiaeth, ar chwilod y dom er enghraifft. Mae llawer o rywogaethau bellach yn brin gyda rhai mewn perygl, o dan fygythiad neu mewn perygl o fod o dan fygythiad. Mae rhagor o dda byw yn cael eu cadw mewn adeiladau dros y gaeaf wedi cyfrannu at hyn yn rhannol, gan fod llai o dom i rywogaethau sy'n bwrw'r gaeaf fwydo arnynt – ond y prif achos yw cyffuriau gwaredu llyngyr afermectin sy'n atal chwilod y dom rhag bridio a ffynnu. Mae colli rhywogaethau o chwilod y dom yn arwain at angen mwy am gyffuriau gwaredu llyngyr, yn ogystal â cholli rhywogaethau eraill y mae chwilod y dom yn ffynhonnell fwyd bwysig iddynt, megis ystlumod ac adar.

Am y rhesymau hyn mae angen rheoli parasitiaid mewn ffordd nad yw'n bygwth bioamrywiaeth. Mae angen mynd i'r afael â'r effeithiau ar lefel anifeiliaid a'r amgylchedd mewn modd cyfunol a chyfannol, gan ddiogelu iechyd y cyhoedd ar yr un pryd.

Canfuwyd ymwrthedd i'r tri dosbarth hynaf o feddyginiaethau gwrthlyngyr mewn diadelloedd yng Nghymru yn ystod astudiaeth a gynhaliwyd yn 2015. Mae dau ddosbarth newydd o feddyginiaeth gwrthlyngyr wedi cael eu trwyddedu ar gyfer defaid yn y DU, ac argymhellir defnyddio'r rhain ar gyfer anifeiliaid mewn cwarantîn ac fel triniaeth canol tymor i estyn effeithiolrwydd y dosbarthiadau eraill o feddyginiaethau gwrthlyngyr.

Mae Grŵp y Fframwaith yn cydnabod bod ymwrthedd i feddyginiaethau gwrthlyngyr yn fygythiad cynyddol i bob fferm ddefaid.

Beth gellir ei wneud?

Mae egwyddor y Fframwaith 'mae atal yn well na gwella' yn berthnasol:

Lle bynnag y bo modd, dylid lleihau'r problemau mae llyngyr yn eu peri drwy reoli pori mewn modd sy'n lleihau'r risg o dda byw yn dod i gysylltiad â pharasitiaid. Dylid rheoli parasitiaid mewn defaid a geifr ac mewn gwartheg yn unol â'r egwyddorion a ymgorfforir yn y mentrau rydym yn eu cefnogi, sef Rheoli Parasitiaid yn Gynaliadwy (SCOPS) a Rheoli Llyngyr yn Gynaliadwy (COWS).

Rhaid inni hyrwyddo rhaglenni lle mae ffermwyr a milfeddygon yn cydweithio er mwyn rheoli parasitiaid, wedi'u hintegreiddio'n llawn i gynlluniau rheoli unedau da byw. Mae angen monitro'r problemau mae parasitiaid yn peri i anifeiliaid, a defnyddio meddyginiaethau gwrthlyngyr mewn modd strategol ac yn ôl yr angen, gan sicrhau nad ydynt yn cael eu defnyddio ond pan fydd angen, o bod y feddyginiaeth wrthlyngyr gywir yn cael

ei defnyddio ar yr anifail cywir ac ar yr adeg gywir.

Dylid annog bridio da byw sy'n gallu gwrthsefyll neu oddef parasitiaid yn well.

Mae angen sganio a monitro clefydau parasitig mewn modd gweithredol, gyda chymaint o rannu gwybodaeth am risg ag bo modd i rybuddio ceidwaid a milfeddygon am gyfnodau o fygythiadau.

Mae'r Ganolfan Arbenigedd ar gyfer Da Byw a Reolir yn Eang wedi cael ei sefydlu yng Nghanolfan Ymchwil Filfeddygol yr Asiantaeth Iechyd Planhigion ac Anifeiliaid (APHA) yng Nghaerfyrddin. Mae'r Ganolfan yn darparu gallu labordy i wneud diagnosis o glefydau parasitig ac i nodi ymwrthedd i feddyginiaethau gwrthlyngyr. Mae'n atgyfnerthu'n sylweddol ein gallu i fynd i'r afael â'r heriau ymwrthedd i feddyginiaethau gwrthlyngyr yn ei peri.



Gall ffermwyr helpu i gynyddu poblogaethau o chwilog y dom, a bydd hyn hefyd yn helpu i arbed arian drwy reoli llyngyr mewn modd cynaliadwy. Mae hyn yn cynnwys cyfrif wyau mewn ysgarthion a defnyddio triniaeth gwaredu llyngyr dim ond pan fydd angen, sydd hefyd yn helpu i atal ymwrthedd i feddyginiaethau gwrthlyngyr mewn anifeiliaid. Nid yw hyn yn golygu bod rhaid i ffermwyr roi'r gorau i drin da byw am wrthlyngyr yn gyfan gwbl.

Pa ganlyniadau yr hoffem eu cyflawni?

Hoffai Llywodraeth Cymru gyflawni'r canlyniadau canlynol;

- Clefydau parasitig yn cael eu hatal yn effeithiol, neu o leiaf eu rheoli, yng Nghymru
- Meddyginiaethau gwrthlyngyr yn cael eu defnyddio dim ond pan fydd angen, a hynny ar y cyd ag arferion rheoli eraill i leihau'r risg o glefydau'n effeithio ar iechyd a lles anifeiliaid.
- Sicrhau bod y meddyginiaeth wrthlyngyr gywir yn cael ei rhoi i'r anifeiliaid cywir ar yr adeg gywir

Bydd y rhain o fudd i'r anifeiliaid sydd mewn perygl o gael eu heintio, eu perchnogion (a fydd yn elwa'n ariannol drwy gynhyrchiant uwch a llai o wariant ar driniaethau aneffeithiol) a'r amgylchedd drwy leihau effeithiau niweidiol tail o anifeiliaid sydd wedi cael eu trin.

Dylai hyn i gyd gael ei wneud drwy gynlluniau da a arweinir gan weithredu ar gyfer rheoli iechyd anifeiliaid, fel ymdrech ar y cyd rhwng y ceidwad da byw a'i filfeddyg. Mae'r Cylch Gwella Iechyd Anifeiliaid yn rhan bwysig o'n cynlluniau ar gyfer y Cynllun Ffermio Cynaliadwy. Byddwn hefyd yn archwilio pa gymorth arall y gall y

cynllun ei roi i ffermwyr i'w helpu i ddefnyddio meddyginiaethau gwrthlyngyr cyn lleied ag y bo modd.

Rydym yn bwriadu gweithio gyda chynlluniau gwarant fferm i gasglu gwybodaeth, am y tro cyntaf, am ddefnyddio meddyginiaethau gwrthlyngyr ar ffermydd defaid a chig eidion Cymru.

Byddwn hefyd yn defnyddio'r cyfleoedd mae gweithgareddau ymgysylltu presennol gyda cheidwaid da byw yn eu cynnig (fel cyfarfodydd rhannu gwybodaeth Cyswllt Ffermio) i gasglu gwybodaeth a cheisio adborth a syniadau.

Ble gallwch gael rhagor o wybodaeth?

Rheoli Parasitiaid yn Gynaliadwy (SCOPS) www.scops.org.uk

Rheoli Llyngyr yn Gynaliadwy (COWS) www.cattleparasites.org.uk



Adnabod Da Byw

EIDCymru

Mae datblygu EIDCymru a'i gwneud y system olrhain amlrywogaeth gyntaf yng Nghymru yn fuddsoddiad sylweddol gan Lywodraeth Cymru ar ran y sector da byw yng Nghymru. Bydd manteision y system newydd yn ein galluogi i ddod â chlefydau o dan reolaeth yn gyflym, yn diogelu ein marchnadoedd allforio a lleihau costau achosion o glefydau.

Drwy gyfuno'r systemau gwahanol ar gyfer gwartheg, defaid a moch, byddwn yn bodloni gofynion Ewropeaidd ac felly yn helpu i sicrhau bod masnach yn gallu parhau ar ôl Brexit. Bydd yn gwella ein gallu i olrhain anifeiliaid pan ddaw clefydau i'r amlwg a bydd yn rhoi cyfle pwysig i ddiwydiant cig coch Cymru ddefnyddio'r data gwell a fydd ar gael er budd ffermwyr a'r gadwyn gyflenwi ehangach. Er enghraifft, os yw'r data'n gadarn, bydd y patrymau sy'n dod i'r amlwg yn caniatáu ymyriadau rhagfynegol yn seiliedig ar hyder uchel ynghylch lle mae anifeiliaid yn debygol o fod, yn debygol o fod yn mynd, a'r

mannau lle mae problemau'n fwyaf tebygol o fod pe bai achosion o glefyd. Gall y dadansoddi data hwn hefyd fod yn ddefnyddiol i'r diwydiant wrth gynllunio a rhagweld o fewn y gadwyn gyflenwi. Bydd cysylltu data ar symud anifeiliaid â data ar statws iechyd a defnyddio meddyginiaethau, ymhen amser, yn darparu gwybodaeth amhrisiadwy a fydd yn helpu i gefnogi prynu cynhyrchion fferylloedd mewn modd gwybodus a'u defnyddio mewn modd doeth.

Adnabod a Chofrestru da byw ac Adrodd ar eu Symudiadau

Mae gan adrodd am symudiadau da byw yn electronig y potensial i helpu'r diwydiant ffermio yng Nghymru, drwy wella'r ffordd mae ffermydd yn cael eu rheoli a hwyluso cadw cofnodion electronig drwy ddefnyddio technoleg well. Mae cyfres o ddiwygiadau'n cael eu cynnig ar hyn o bryd i'r prosesau presennol ar gyfer cofrestru ac adrodd ar symudiadau defaid, geifr, gwartheg a moch, ynghyd â'r bwriad i gyflwyno dyfeisiau Adnabod Electronig Buchol. Gallai hyn arwain at ddatblygiadau sylweddol yn y ffordd yr adroddir am symudiadau mewn amser real, gan roi data ystyrlon inni ynghylch lle mae anifeiliaid ar unrhyw adeg benodol.

Mae swyddogion yn gweithio'n agos gyda gweinyddiaethau a rhanddeiliaid y DU i sicrhau ein bod yn gweithredu ac yn rhoi mesurau ar waith mewn modd cyson lle bo hynny'n bosibl, gan anelu at fesurau sy'n gadarn, yn gyraeddadwy ac yn orfodadwy. Mae hyn yn estyn i waith adnabod anifeiliaid eraill fel ceffylau, lle mae'n ofynnol adnabod pob ceffyl yng Nghymru â microsglodyn a bod â phasbort dilys, o dan Reoliadau Adnabod Ceffylau (Cymru) 2019.

Rhif y Daliad (CPH)

Rhan annatod o wella'r gallu i olrhain anifeiliaid yw'r gallu i gofnodi lle mae anifeiliaid ar bob adeg. Rhaid i'r holl dir a ddefnyddir ar gyfer da byw fod â Rhif Daliad (CPH) wedi'i neilltuo gan Daliadau Gwledig Cymru (RPW). Lansiwyd prosiect Rheoli Fy CPH yn 2017 yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus, a chyflwynwyd rheolau symlach newydd ar gyfer ceidwaid a oedd yn defnyddio Rheoli Fy CPH, system fapio RPW Ar-lein.

Er mwyn darparu manteision llawn olrhain, hoffem wneud rheolau CPH newydd yn berthnasol i bob ceidwaid, sy'n golygu y bydd yn ofynnol i geidwaid fapio'r holl dir y maent yn ei ddefnyddio ar gyfer da byw ar Reoli Fy CPH.

Beth gellir ei wneud?

Bydd y diwygiadau rydym yn bwriadu eu cyflwyno yn dilyn ymgynghoriad llawn (hydref 2021) ar y prosesau presennol ar gyfer cofrestru ac adrodd am symudiadau defaid, geifr, gwartheg a moch – ynghyd â'r bwriad i

weithredu Adnabod Electronig Gwartheg (EID Gwartheg), yn gweithio ochr yn ochr â'r estyniad arfaethedig i EIDCymru, er mwyn caniatáu cofnodi holl symudiadau a chofrestriadau da byw Cymru. Bydd cyflwyno'r newidiadau hyn yn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i'n diwydiant, gan leihau'r baich rheoleiddio lle bo hynny'n bosibl, a manteisio i'r eithaf ar dechnoleg ddigidol er mwyn moderneiddio ein prosesau.

Er mwyn cryfhau'r gallu i olrhain yr holl dda byw yng Nghymru ymhellach, byddwn yn gorfodi defnyddio rheolau Rhif Daliad (CPH) newydd a gyflwynwyd yn 2017, ac yn gorfodi pob ceidwad i ddefnyddio Rheoli Fy CPH erbyn 2023.

Pa ganlyniadau yr hoffem eu cyflawni?

Bydd polisïau diwygiedig newydd ar gyfer symud ac adnabod da byw, ochr yn ochr â chyflwyno system cofnodi symudiadau newydd, yn rhoi data mwy cywir inni. Bydd hyn yn ein galluogi i nodi'r risg o glefydau yn gyflym, ynghyd â'r manau sy'n debygol o beri problem os bydd achosion o glefyd. Bydd data gwell yn ein galluogi i reoli clefydau yn gyflym, diogelu ein diwydiant a lleihau costau achosion o glefydau.

Rydym yn bwriadu lansio'r system a'r gwasanaeth newydd ar gyfer gwartheg ar EIDCymru yn 2022, a bydd moch yn cael eu cynnwys yn fuan ar ôl hynny.

Cyhoeddwyd yr ymgynghoriad
*Newidiadau i Drefniadau Adnabod,
Cofrestru ac Adrodd ar Symudiadau*

Da Byw yn hydref 2021, ac yn dilyn ymatebion a newidiadau i ddeddfwriaeth, gallai arwain at ddatblygiadau sylweddol yn y ffordd yr adroddir ar symudiadau mewn amser real, a gwneud EID ar gyfer Gwartheg yn orfodol o 2023.

Bydd pob ceidwaid da byw Cymru yn cael ei drosglwyddo i Reoli fy CPH o fis Medi 2021.

Beth bydd Grŵp y Fframwaith yn ei wneud i gefnogi'r amcanion hyn?

Adnabod Anifeiliaid — cefnogi'r gwaith o ddatblygu'r system olrhain amlrywogaeth gyntaf ar gyfer Cymru, drwy ddarparu cyngor ac arweiniad wrth iddi gael ei datblygu. Annog y diwydiant i fabwysiadu polisïau Adnabod a Symud Da Byw er mwyn sicrhau bod safonau uchel ar gyfer olrhain da byw yn cael eu cyflawni. Annog cynnwys data ar iechyd anifeiliaid a defnyddio meddyginiaethau yn y rhaglen hefyd wrth symud ymlaen.

Ble gallwch gael rhagor o wybodaeth?

www.eidcymru.org/eidcymru



Gwylidwriaeth Filfeddygol

Gwylidwriaeth yw gwybod am statws iechyd poblogaeth, yn ein hachos ni anifeiliaid Cymru. Mae'n amhosibl sicrhau safonau da o iechyd a lles anifeiliaid heb rywaint o ddealltwriaeth o ba glefydau sy'n effeithio ar anifeiliaid ac i ba raddau, ac o batrymau clefydau. Pan fydd achos o rai clefydau, clefydau egrotig statudol yn bennaf, mae'n hanfodol adnabod y clefyd hwnnw gyntaf. Mae gwylidwriaeth dda ar glefydau yn allweddol er mwyn rheoli risgiau i iechyd yn effeithiol.

Mae clefydau a'r cyfryngau sy'n eu hachosi yn newid yn barhaus, o ganlyniad mae gwylidwriaeth barhaus yn hanfodol

Prif ddibenion gwylidwriaeth iechyd anifeiliaid yw:

1. cynhyrchu gwybodaeth sy'n ein galluogi i gymryd camau i ddiogelu a gwella iechyd a lles anifeiliaid
2. diogelu iechyd y cyhoedd a'r amgylchedd
3. canfod clefydau newydd, clefydau sy'n dod i'r amlwg a chlefydau sy'n aildedigwydd, gan gynnwys milheintiau a phathogenau sydd wedi croesi ffiniau rhywogaethau
4. monitro tueddiadau mewn perthynas â statws iechyd poblogaethau anifeiliaid, a lefelau risg
5. sicrhau y cydymffurfir â rhwymedigaethau a gofynion rhyngwladol
6. canfod methiannau o ran effeithiolrwydd a diogelwch meddyginiaethau milfeddygol, gan gynnwys agweddau ar fonitro ymwrthedd i gyffuriau gwrthficrobaidd a gwrthlyngyr
7. cyfrannu at gadernid, cynaliadwyedd ac ansawdd gwasanaethau milfeddygol yn y DU
8. cynyddu hyder defnyddwyr, gwella bioddiogelwch a gwella enw da ffermio da byw a chadw anifeiliaid yn y DU

Felly, cynhelir gwyliadwriaeth ar glefydau mewn un o ddwy brif ffordd:

Gwyliadwriaeth weithredol yw'r dull a ddefnyddir pan fydd y bygythiad yn hysbys, a'r nod yw nodi faint y broblem, neu ddeall yn well gyrhaeddiad y clefyd. Fel arfer, mae gwyliadwriaeth weithredol yn cael ei chomisiynu drwy ofynion rheoleiddiol, ac fe'i cyflawnir yn bennaf gan APHA.

Gwyliadwriaeth sganio yw'r dull a ddefnyddir i ganfod bygythiadau anhysbys, megis presenoldeb clefydau newydd neu newid mewn patrymau clefydau sy'n bodoli eisoes. Rhaid i'r person sy'n gyfrifol am yr anifail roi gwybod os canfyddir symptomau, a gofyn am ddiagnosis milfeddygol.

Beth gellir ei wneud?

Bydd Llywodraeth Cymru yn gwneud y canlynol:

- Trafod â DEFRA ac APHA i sicrhau bod gan y wyliadwriaeth sganio yng Nghymru a Lloegr y gallu a'r capasiti i ganfod risgiau sylweddol i iechyd a lles anifeiliaid, drwy'r Prosiect Cyflawni Gwyliadwriaeth Sganio.
- Drwy Fforwm Gwyliadwriaeth y DU, gweithio gyda Gweinyddiaethau eraill i ddarparu trosolwg o ofynion gwyliadwriaeth ar glefydau anifeiliaid y DU, ac i sicrhau eu bod yn cael eu cyflawni.
- Cefnogi prosiect ymgysylltu APHA i godi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd a manteision gwyliadwriaeth ymhlith ceidwaid da byw a milfeddygon yng Nghymru.
- Adolygu'r gofynion ar gyfer gwyliadwriaeth ar risgiau iechyd i anifeiliaid anwes – anifeiliaid bach a

cheffylau, a nodi bylchau yn y wyliadwriaeth honno. Gweithio gyda rhanddeiliaid a gweinyddiaethau eraill i unioni bylchau sylweddol, a manteisio ar gyfleoedd wrth iddynt godi.

- Gweithio gyda rhanddeiliaid i atgyfnerthu'r seilwaith gwyddonol a milfeddygol ar gyfer gwyliadwriaeth ar iechyd anifeiliaid yng Nghymru, gan gynnwys datblygiadau parhaus i Ganolfan Ymchwil Feddygol APHA yng Nghaerfyrddin, Canolfan Gwyddorau Milfeddygol Cymru a'r ysgol filfeddygol newydd yn Aberystwyth.

Pa ganlyniadau yr hoffem eu cyflawni?

- Sicrhau bod bygythiadau sylweddol i iechyd a lles anifeiliaid, ynghyd â bygythiadau i iechyd y cyhoedd sy'n gysylltiedig ag anifeiliaid, yn cael eu canfod yn brydlon.
- Ymwybyddiaeth o'r sylw a roddir i'n systemau gwyliadwriaeth sganio a dealltwriaeth o'r tebygolrwydd o ganfod neu fethu canfod bygythiadau.
- Monitro tueddiadau'r prif glefydau heintus ymhlith da byw yng Nghymru sy'n arwain at ddefnyddio gwrthfotigau.
- Cyfrifoldebau'n cael eu rhannu'n well – datblygu dealltwriaeth a gwerthfawrogiad gwell o bwysigrwydd gwyliadwriaeth ymhlith rhanddeiliaid allweddol, a'r gofynion ar gyfer gwyliadwriaeth, a sut y gallant ddefnyddio'r wybodaeth sy'n dod o wyliadwriaeth i wella perfformiad a rheoli risg.

- I'r perwyl hwnnw, ac ar y cyd â rhanddeiliaid, dylunio a darparu offerynnau gwybodaeth hawdd eu defnyddio i wneud canfyddiadau gwyliadwriaeth yn fwy perthnasol ac yn haws eu defnyddio. Yn benodol, datblygu ffyrdd pwrpasol o rannu gwybodaeth gwyliadwriaeth ar gyfer ceidwaid da byw, milfeddygon anifeiliaid fferm a llunwyr polisi.
- Gweithio gydag APHA i fanteisio ar gyfleoedd i ddefnyddio ffynonellau TG a data newydd er budd gwyliadwriaeth, er enghraifft, cronfeydd data ar ddemograffig anifeiliaid fel y system olrhain amlrywogaeth.

Bydd cynnydd yn cael ei fonitro drwy gyfres o fesurau gwyliadwriaeth sganio wedi'u datblygu gan APHA, gan gynnwys monitro'r wyliadwriaeth sydd ar waith yng Nghymru.

Beth bydd Grŵp y Fframwaith yn ei wneud i gefnogi'r amcanion hyn?

Bydd Grŵp y Fframwaith yn cynghori Llywodraeth Cymru a phartneriaid cyflawni APHA i adolygu a mireinio allbynnau gwyliadwriaeth.

Byddwn yn manteisio ar gyfleoedd i hyrwyddo pwysigrwydd gwyliadwriaeth ar glefydau i geidwaid da byw a'u milfeddygon.

Ble gallwch gael rhagor o wybodaeth?

www.gov.uk/government/publications/uk-sf-uk-approach-to-animal-health-surveillance

apha.defra.gov.uk/vet-gateway/surveillance

www.bva.co.uk/news-campaigns-and-policy/policy/animal-disease-surveillance/disease-surveillance/



Masnach Ryngwladol

Mae masnach ryngwladol yn dilyn gadael yr UE yn flaenoriaeth allweddol i Gymru. Byddwn yn ceisio sicrhau nad yw anifeiliaid a chynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid yn peri risgiau annerbyniol i iechyd y cyhoedd a/neu iechyd anifeiliaid, nac yn tanseilio ein safonau domestig ar gyfer lles anifeiliaid. Ar yr un pryd, byddwn yn hyrwyddo codi safonau'n fyd-eang ac yn cefnogi allforion o Gymru i godi'r bar ar gyfer ffermio anifeiliaid mewn modd cadarnhaol, er mwyn cynhyrchu da byw a bwyd o ansawdd uchel sy'n gallu cystadlu ar y farchnad ryngwladol fel rhan o 'Frand Cymru'.

Drwy'r amodau rydym yn eu pennu mewn cytundebau masnach a gwyliadwriaeth filfeddygol, mae ein partneriaid masnachu'n cynnal gwaith adrodd swyddogol i lywio'r mesurau

rheoli mewnforyn sydd ar waith gennym. Mae hyn yn ein galluogi nid yn unig i bennu polisïau masnach arferol, ond hefyd i gymryd camau brys, fel gwahardd neu gyfyngu ar fewnforyn o wledydd lle mae achosion o glefydau sy'n peri risg i iechyd anifeiliaid a'r cyhoedd wedi cael eu cadarnhau.

Safleoedd rheoli ffiniau yw un o'n systemau amddiffyn rheng flaen mwyaf hanfodol wrth ddiogelu Cymru a'n diwydiant ffermio rhag wynebu bygythiadau gan glefydau anifeiliaid egsoftig ('cadw'r haint allan') a/neu fygythiadau i iechyd y cyhoedd gan gynhyrchion anifeiliaid.

Mae nifer eang o bathogenau sy'n peri pryder posibl wrth fewnforio anifeiliaid anwes o dramor, y gall rhai ohonynt ledaenu o anifeiliaid i bobl. Mae'r risg yn amrywio ond gall effaith clefydau egsoftig sy'n dod i mewn i Gymru fod yn drychinebus, gydag achosion o glwy'r traed a'r genau a chlwy'r moch clasurol yn ein hatgoffa ni am hyn. Rydym yn monitro'r sefyllfa iechyd mewn gwledydd eraill yn barhaus ac yn cysylltu â'r awdurdodau milfeddygol perthnasol ynghylch nodi risgiau i Gymru a'r DU.

Beth gellir ei wneud?

Mae gennym gyfle i gynyddu ein rheolaethau bioddiogelwch ar gyfer y nwyddau rydym yn eu mewnforyn, ac i greu cyfleoedd ar gyfer allforion a'u cefnogi (gan hyrwyddo ar yr un pryd yr arferion gorau ymhlith busnesau sydd am allforio – sgil-effaith sydd i'w chroesawu).

Bydd Cymru yn gweithredu cyfundrefn sengl sy'n seiliedig ar risg ar gyfer mewnforyn ar ôl gadael yr UE, sy'n galluogi masnach effeithlon wrth ar yr un pryd gynyddu ein lefelau o fioggiogelwch, a heb fod ym fympwyol

wrth drin yr UE mewn ffordd ffafriol. Rydym yn cydnabod bod Prydain Fawr yn ei chyfanrwydd yn uned epidemiolegol, felly byddwn yn gweithio gyda llywodraethau eraill y DU drwy Fframwaith Cyffredin i'r DU ar gyfer Iechyd a Lles Anifeiliaid, i sicrhau bod system gydlynol ledled Prydain Fawr.

Yn ogystal â gofynion wedi eu pennu ymlaen llaw mewn perthynas ag amodau iechyd ar gyfer cynhyrchion anifeiliaid wedi'u hallforio sy'n dod i Gymru, cynhelir gwiriadau ar y ffin ar anifeiliaid a chynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid ar Safleoedd Rheoli Ffiniau cyn iddynt ddod i Gymru i gadarnhau eu bod yn cydymffurfio.

Bydd Cymru'n ceisio dylanwadu ar Lywodraeth y DU mewn trafodaethau ynghylch masnach, i fanteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd ar gyfer allforio ac i gynnal y safonau uchel sydd gennym ar gyfer rheoleiddio iechyd a lles anifeiliaid, i sicrhau bod yr hyn sy'n cael ei fewnforio inni yn ddiogel, ac nad yw'n rhoi ein diwydiant dan anfantais.

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio'n agos gyda'n partneriaid a'n rhanddeiliaid gweithredol a'u cefnogi i ddelio ag anifeiliaid a chynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid sy'n cael eu mewnforyn'n anghyfreithlon, a thynnu sylw at y risg o glefydau a'r problemau lles sy'n deillio o fasnach anghyfreithlon. Mae gan fusnesau a'r cyhoedd rôl i'w chwarae wrth gadw'r risg o glefydau anifeiliaid a milheintiau yn isel, drwy sicrhau bod anifeiliaid a chynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid yn cael eu prynu mewn modd gwybodus ac o ffynonellau ag enw da.

Pa ganlyniadau yr hoffem eu cyflawni?

Rhagor o ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o sut y gallai mewnforio anifeiliaid a chynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid beri risg i iechyd y cyhoedd a/neu iechyd anifeiliaid, a'r camau y dylid eu cymryd i leihau'r risg hon.

Cyhoeddi Strategaeth Iechydol a Ffytioiechydol (SPS) ar gyfer y DU, y cytunwyd arni gan y Prif Swyddogion Milfeddygol, ar gyfer trafodaethau masnach.

Polisi mewnforio a chyfundrefn rheoli ffiniau sy'n gwella ein bioddiogelwch mewn modd amlwg.

Beth bydd Grŵp y Fframwaith yn ei wneud i gefnogi'r amcanion hyn?

Papur sefyllfa ar fasnach mewn nwyddau anifeiliaid – i gefnogi Llywodraeth Cymru i gael trafodaethau mewnol yn y DU â DEFRA a'r Adran Masnach Ryngwladol, ac i hyrwyddo ein hamcanion yn ehangach. Papur(au) sefyllfa ar bolisi mewnforion, ar faterion penodol, er enghraifft:

- amodau ar gyfer mewnforio anifeiliaid neu gynhyrchion penodol – er enghraifft, mewnforio cŵn bach
- gweithredu'r gyfundrefn rheoli ffiniau, gan gynnwys gorfodi.

Ble gallwch gael rhagor o wybodaeth?

Y Model Gweithredu Safleoedd Rheoli Ffiniau - www.gov.uk/government/publications/the-border-operating-model

Naratif Sicrwydd – <https://assets.publishing.service.gov.uk/government/agri-food-chain-assurance-narrative.pdf>

Naratif Bioddiogelwch – www.assets.publishing.service.gov.uk/government/animals-plants-biosecurity-narrative.pdf



Dileu Clefydau

Mae clefydau anifeiliaid yn fygythiad cyson i'r sectorau da byw, dofednod, anifeiliaid anwes ac adar caeth yng Nghymru, a gall achosion gael effaith ddinistriol ar y diwydiant, cymunedau gwledig ac economi Cymru. Yn ogystal, gall clefydau milheintiau sy'n trosglwyddo i bobl (fel salmonela a'r gynddaredd) achosi risgiau sylweddol i iechyd y cyhoedd.

Mae camau i atal clefydau yn y lle cyntaf yn allweddol, ond pan fydd achos o glefyd yn codi, rhaid cymryd camau i reoli a dileu'r clefyd a chyfyngu ar ei effaith. Mae angen cynlluniau wrth gefn i ymdrin ag achosion posibl o glefyd yng Nghymru, gan gynnwys clefydau hysbysadwy egsgotig fel clwy'r traed a'r genau, fflw adar, clwy'r moch a'r tafod glas.

Ar gyfer y clefydau hynny sydd eisoes yn bresennol yng Nghymru, mae gweithdrefnau rheoli a monitro ar waith i nodi pa mor helaeth yw'r clefyd ac i atal risg i'r gadwyn fwyd ac i iechyd y cyhoedd.

Mae'n hanfodol bod dulliau o ddileu clefydau yn cael eu hystyried ar sail y cysyniad o ymdrin ag iechyd mewn modd cyfunol, lle mae natur clefyd a'i effaith ar iechyd anifeiliaid, pobl a'r amgylchedd yn cael eu hystyried yng ngham atal a cham lliniaru clefydau. Mae gwaith agos rhwng y llywodraeth, awdurdodau lleol, cyrff diwydiant, arbenigwyr clefydau a cheidwaid anifeiliaid yn allweddol i gyflawni'r dull hwn.

Dolur Rhydd Feirysol Buchol

Haint pestifeirws mewn gwartheg yw'r Dolur Rhydd Feirysol Buchol (BVD). Mae'n gallu achosi amrywiaeth o ganlyniadau clinigol, o heintiau is-glinigol i ganlyniadau mwy difrifol, gan gynnwys erthyliadau, anffrwythlondeb a'r clefyd mwcosaidd angheuol. Gall yr haint hefyd waethygu clefydau endemig mewn buches a gall gyfrannu at bryderon lles.

Nod y Cynllun Gwaredu BVD, a arweinir gan y diwydiant, yw dileu BVD o fuchesi Cymru. Mae Grŵp y Fframwaith a Llywodraeth Cymru yn falch o'r ymdrechion a wnaed ar draws y diwydiant amaethyddol i godi ymwybyddiaeth o'r clefyd feirysol hwn, i ddiogelu lles ein da byw a chynaliadwyedd a chynhyrchiant busnesau ffermio.

Gwnaeth Grŵp Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid Cymru gydnabod bod rheoli BVD yn flaenoriaeth ar gyfer y diwydiant yng Nghymru, a chefnogi datblygu a gweithredu'r cynllun hwn ar gyfer Cymru, gan sicrhau cyllid gwerth £9 miliwn gan Gymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig 2014–2020

Mae'r cynllun wedi bod yn llwyddiannus, ac ers ei lansio yn Sioe Frenhinol Cymru 2017 mae dros 8,500 (80%) o fuchesi Cymru wedi cael eu sgrinio. Fodd bynnag, mae'r her o gael gwared ar anifeiliaid sydd wedi'u heintio'n barhaus yn parhau, gan fod dros 50% o'r anifeiliaid y nodir eu bod wedi'u heintio'n barhaus yn cael eu cadw neu eu gwerthu, yn hytrach na chael eu hanfon i'w lladd.

Beth gellir ei wneud?

Yn dilyn cyfnod gwirfoddol y rhaglen Gwaredu BVD o dair blynedd, bwriad rheolwyr y cynllun oedd cyflwyno rhaglen orfodol, wedi'i hategu gan deddfwriaeth. Mae Llywodraeth Cymru wedi datgan y byddai deddfwriaeth yn cael ei hystyried, ar yr amod y gellid cynnal cyfnod gwirfoddol llwyddiannus ac y gellid parhau i ddangos tystiolaeth briodol er mwyn llunio a chyfiawnhau rheolaethau deddfwriaethol. Heb hyn, bydd y cynnydd a wnaed yn ystod y cyfnod gwirfoddol yn cael ei golli a bydd BVD yn parhau i fod yn broblem ddifrifol i ffermwyr Cymru.

Bydd sgrinio gwirfoddol yn parhau tan fis Rhagfyr 2022, gan ganiatáu amser i ddatblygu deddfwriaeth. Mae'r sgrinio am BVD yn cael ei gynnal ar yr un pryd â phrofion am Dwbercwlosis Buchol (TB Buchol). Ategir y gwaith hwn â chynghor a chymorth milfeddygol i adnabod a gwaredu gwartheg sydd wedi'u heintio'n barhaus o'r fuches. Anogir pob ceidwaid gwartheg yng Nghymru i gymryd rhan.



Pa ganlyniadau yr hoffem eu cyflawni?

Y canlyniad a ddymunir yw symud Cymru tuag at y nod o ddileu BVD o'i buchesi. Bydd gwaredu BVD yn cynnig manteision ariannol sylweddol i'r diwydiant, ac yn gwella iechyd gwartheg yng Nghymru. Bydd rhannu'r arferion gorau, y wybodaeth ddiweddaraf am y niferoedd sy'n cymryd rhan yn y cynllun a'r canfyddiadau yn helpu i fonitro cyfranogiad yn y cynllun a nifer yr achosion o glefydau ledled Cymru.

Un o brif egwyddorion y Fframwaith yw gweithio mewn partneriaeth. Mae'n bwysig parhau â'r cydweithio hwn ac adeiladu ar y profiad hwn drwy gymhwyso'r gwersi a ddysgwyd i glefydau anifeiliaid eraill.

Byddwn yn cyfrannu at yr ymdrech genedlaethol i ddileu BVD drwy sicrhau bod rhaglen Cymru yn cydfynd â rhaglenni gweinyddiaethau eraill y DU, yn enwedig mewn perthynas â rhannu data a symudiadau trawsffiniol. Nid yw clefydau'n cydnabod ffiniau gwleidyddol, a rhaid ystyried hyn wrth ddatblygu ein systemau data a'n prosesau.

Mae BVD yn heintus iawn ac mae'n ein hatgoffa am yr angen i sicrhau bod arferion da ar waith ar gyfer cynllunio iechyd anifeiliaid, i wella safonau bioddiogelwch ledled Cymru.

Mae manteision amgylcheddol hefyd i reoli clefydau fel BVD, drwy gyfrannu at effeithlonrwydd cynyddol ein buchesi cenedlaethol a lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr. Gall dileu BVD fod yn gam cadarnhaol tuag at sicrhau amgylchedd cynaliadwy o ansawdd uchel.

Beth bydd Grŵp Fframwaith Cymru yn ei wneud i gefnogi'r amcanion hyn?

Mae gan Grŵp y Fframwaith rôl bwysig wrth bennu ein hamcanion ar gyfer Gweithredu'r Fframwaith, mewn cydweithrediad â Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid, er mwyn llywio ein blaenoriaethau cenedlaethol i fynd i'r afael â chlefydau allweddol fel BVD. Bydd Grŵp y Fframwaith yn annog ceidwaid gwartheg i gymryd rhan yn y cynllun Gwaredu BVD gwirfoddol, i gefnogi gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer sicrhau bod 100% o holl fuchesi Cymru yn cael eu sgrinio.

Ble gallwch gael rhagor o wybodaeth?

Iechyd a Lles Anifeiliaid Cymru:

<http://www.ahww.cymru/cy/home/>

<https://llyw.cymru/dolur-rhydd-feirysol-buchol-canllaw>

Y Clafr

Mae'r Clafr yn parhau i fod yn fygythiad mawr i les defaid ym Mhrydain Fawr, a gall arwain at gostau sylweddol i ffermwyr defaid, gan gynnwys colli cynhyrchiant a chostau am driniaeth.

Mae'r clefyd hwn yn broblem benodol i'n diwydiant defaid yng Nghymru oherwydd nifer uchel y diadelloedd yng Nghymru a maint y diadelloedd hynny, patrymau ffermio defaid a'r defnydd helaeth o bori ar dir comin. Mae rheoli ac, yn y pen draw, dileu'r Clafr wedi bod yn un o flaenoriaethau Grŵp y Fframwaith ers cryn amser.

Mae rhwymedigaeth gyfreithiol ar berchnogion diadellau a cheidwaid defaid i drin a rheoli'r Clafr o fewn eu diadellau – ac ysgwyddo eu costau eu hunain am wneud hynny. Mae dyletswydd ar awdurdodau lleol i weithredu pan nad yw perchnogion defaid yr effeithir arnynt yn cymryd camau priodol i drin y Clafr.

Rhwng mis Tachwedd 2020 a mis Mawrth 2021, cynigiodd Grŵp y Fframwaith, drwy APHA, archwilio samplau wedi'u crafu o groen defaid a oedd yn dangos arwyddion clinigol o'r Clafr mewn diadelloedd yng Nghymru, yn rhad ac am ddim. Nod y fenter hon oedd codi ymwybyddiaeth o'r angen am ddiagnosis cywir er mwyn penderfynu ar y driniaeth, ac annog ffermwyr i ddefnyddio eu milfeddyg i reoli'r Clafr. Cymerodd llawer o ffermwyr ran yn y fenter hon.

Mae angen atal y Clafr, yn hytrach na'i wella ar ôl ei ganfod. Mae triniaethau

sydd ar gael ar gyfer y Clafr yn gyfyngedig ac, yn enwedig yn achos triniaethau lleol, gallant achosi niwed amgylcheddol os nad ydynt yn cael eu gweinyddu mewn modd gofalus a chywir. Yn ogystal, mae gwiddon sydd ag ymwrthedd i'r triniaethau sydd ar gael yn debygol o gynyddu, a gall y triniaethau hyn ddod yn anghynaliadwy yn y dyfodol.

Beth gellir ei wneud?

Pan fydd achos o'r Clafr yn codi, dylai'r fferm yr effeithir arni weithio gyda'u milfeddyg i gael gwared ar y pla yn gyflym ac yn ddiogel. Mae gan ffermwyr ddyletswydd i hysbysu awdurdodau lleol os ydynt yn canfod y Clafr ar eu fferm ac ar ffermydd eraill. Mae angen iddynt hefyd gydweithio â chymdogion a diadelloedd eraill y mae eu defaid wedi dod i gysylltiad â nhw i ddileu'r clefyd yn gyflym.

Mae prosiectau a mentrau peilot diweddar yng Nghymru wedi dangos cynnydd yn nifer y samplau o groen wedi'i grafu neu wllân sy'n cael eu cyflwyno. Mae'r mentrau hyn hefyd wedi nodi meysydd i'w gwella fel yr angen i bob ffermwr a cheidwaid yng Nghymru gydweithredu, a sicrhau eu bod yn cyflwyno samplau o ansawdd da. Gall cymorth ar gyfer rhagor o fentrau o'r math hwn wella'r dulliau

diagnostig sydd ar gael, a sicrhau bod rhaglenni yn y dyfodol i fynd i'r afael â'r clefyd yn addas i'r diben ac yn cael eu defnyddio'n helaeth.

Mae angen inni barhau a chryfhau'r broses o rannu gwybodaeth er mwyn sicrhau bod ceidwaid defaid, eu cyflenwyr fferyllol, eu milfeddygon a'r diwydiant defaid ehangach yn deall ac yn dilyn yn llawn yr arferion gorau ar gyfer atal y Clafr, gan gynnwys triniaeth briodol, effeithiol a diogel, pan fydd achosion o'r clefyd yn cael eu canfod.

Mae angen cynnwys atal y Clafr yn y trefniadau ar gyfer rheoli bioddiogelwch diadellau, a fydd yn rhan o'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy.

Pa ganlyniadau yr hoffem eu cyflawni?

Gostyngiad sylweddol yn nifer yr achosion o'r Clafr yng Nghymru. Gellir mesur cynnydd drwy fonitro'r gostyngiad yn nifer yr achosion o'r clefyd neu nifer y diadellau sy'n cael eu trin, ac mae hyn yn dibynnu ar y cynllun a fabwysiadir ar gyfer dileu'r clefyd.

Dealltwriaeth well o ddigwyddedd achosion o'r Clafr yng Nghymru, gan gynnwys patrymau a'r ffordd mae'r clefyd yn lledaenu, er mwyn targedu



mesurau rheoli yn y dyfodol yn y ffordd orau. Mae hyn yn golygu blaenoriaethu'r Clafr mewn gwaith gwyliadwriaeth ar glefydau defaid.

Gwneud diagnosis cyflym a chywir o'r clefyd pan fydd achosion yn codi, i sicrhau bod y driniaeth yn llwyddiannus, yn gynaliadwy ac yn ddiogel. Gellir gwneud hyn drwy fonitro'r samplau sy'n dod o ddefaid sydd ag arwyddion bod ganddynt y Clafr sy'n cael eu cyflwyno i labordai, ac annog profion labordy.

Rhagor o ymwybyddiaeth yn niwydiant defaid yng Nghymru o bwysigrwydd bioddiogelwch a chaffael defaid mewn modd diogel, i reoli'r Clafr, yn ogystal â phob clefyd heintus arall.

Beth bydd Grŵp Fframwaith Cymru yn ei wneud i gefnogi'r amcanion hyn?

Bydd Grŵp y Fframwaith a Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda ffermwyr defaid a'u milfeddygon i ddatblygu dull y cytunwyd arno ar y cyd i reoli'r clefyd yng Nghymru. Dylai'r dull hwn ganolbwyntio ar atal y clefyd rhag effeithio ar ddiadelloedd defaid, drwy fesurau bioddiogelwch syml ond effeithiol y gall pob fferm ddefaid eu gweithredu'n rhwydd. Mae angen hefyd i'r dull gyfrannu at driniaeth ddiogel ac effeithiol pan fydd achosion o'r clefyd yn cael eu canfod.

Mae Grŵp y Fframwaith yn parhau i chwarae rhan hanfodol yn y gwaith o reoli a dileu'r Clafr, fel rhan o ddull partneriaeth gyda Llywodraeth Cymru, diwydiant, y proffesiwn milfeddygol, partneriaid gweithredol a rhanddeiliaid eraill i ymdrin ag iechyd mewn modd

cyfunol, sy'n ystyried egwyddorion iechyd i Bawb.

Ble gallwch gael rhagor o wybodaeth?

<https://llyw.cymru/y-clafr>

Twbercwlosis Buchol

Mae TB Buchol yn filhaint a achosir gan y bacteriwm *Mycobacterium bovis*, ac mae trin gwartheg wedi'u heintio yn cael ei wahardd gan y gyfraith. Ers 2010 rydym wedi cynnal prawf blynyddol ar bob buches yng Nghymru, gyda'r nod o ganfod yr haint cyn i wartheg ddangos unrhyw arwyddion o salwch. Mae hyn yn ein helpu i gael gwared ar gwartheg sydd wedi'u heintio, cyn iddynt gael cyfle i heintio gwartheg eraill. Dim ond drwy gyfuniad o fesurau sy'n targedu holl ffynonellau'r haint (anifeiliaid domestig a bywyd gwyllt) y gellir dileu TB Buchol).

Cyflwynwyd Rhaglen i Ddileu TB yng Nghymru yn 2008, ac ers hynny, mae mwy a mwy o fesurau wedi cael eu cyflwyno bob yn gam i gael gwared â'r clefyd. Yn 2017, gwnaethom sefydlu Ardaloedd TB Isel, Canolradd ac Uchel fel rhan o'r dull rhanbarthol o ddileu TB. Mae'r ardaloedd hyn yn ein galluogi i weithredu mesurau wedi'u targedu i ymateb i unrhyw achosion o'r clefyd sy'n dod i'r amlwg.

Roedd sefydlu'r ardaloedd hyn yn caniatáu inni weithredu mesurau rheoli mwy penodol a phennu dyddiadau targed i bob rhanbarth fod rhydd rhag TB. Yn ogystal, mae'n ein galluogi i ymateb yn gyflymach ac yn fwy effeithiol pan fydd achosion o'r clefyd yn dod i'r amlwg. Er enghraifft, rydym wedi gweithredu mesurau yn yr Ardal TB Isel i ymateb i nifer cynyddol o achosion newydd o TB yn y rhanbarth.

Mae'r gwaith o ddileu TB wedi gwneud cynnydd da ers inni sefydlu'r rhaglen yn 2008, a chyda gostyngiadau tymor hir o ran nifer yr achosion newydd a digwyddedd. Yng Nghymru rhwng 2009 a 2020 bu gostyngiad o 48% mewn achosion newydd a gostyngiad o 16% yn nifer yr anifeiliaid a laddwyd.

Beth gellir ei wneud?

Rydym yn adolygu ac yn gwella ein rhaglen yn barhaus i sicrhau ei bod yn diwallu anghenion ffermwyr, diwydiant a rhanddeiliaid eraill, a gwnaethom ddarparu cymorth ar ddechrau pandemig y coronafeirws drwy weithredu nifer o gonsesiynau dros dro i ymateb i'r cyfyngiadau a roddwyd ar waith o ran cadw pellter cymdeithasol a gofynion hunanynysu.

Gwnaethom gyhoeddi targedau i ddileu TB yng Nghymru yn 2017. Os ydym yn cyflawni'r rhain bydd Cymru yn rhydd rhag TB yn swyddogol rhwng 2036 a 2041. Pennwyd targedau interim, sy'n cynnwys cyfnodau o chwe blynedd, ar gyfer pob un o'r Ardaloedd TB. Mae'r targedau hyn yn pennu gostyngiadau cyffredinol yn nifer yr achosion, yn ogystal â throsglwyddo Unedau Gofodol o ardaloedd uwch i ardaloedd lle mae nifer yr achosion yn is. Mae'r targedau rhanbarthol cyntaf yn cynnwys y cyfnod rhwng 31 Rhagfyr 2017 a Rhagfyr 31 2023. Ar ddiwedd pob cyfnod o chwe blynedd, gyda'r cyntaf ar ddiwedd 2023, byddwn yn adolygu cynnydd ac yn gosod y cerrig milltir ar gyfer y cyfnod nesaf. Bydd Unedau Gofodol yn cael eu trosglwyddo o ardaloedd uwch i ardaloedd is yn unol ag unrhyw welliant yn sefyllfa'r clefyd yn ystod y cyfnod blaenorol.

Byddwn yn adnewyddu'r rhaglen dileu TB yn 2022, yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus i geisio barn ar rai meysydd polisi allweddol megis prynu gwybodus, iawndal TB a phrofion cyn ac ar ôl symud. Byddwn yn cryfhau'r rhannau o'r rhaglen y gwyddom eu bod yn cael effaith sylweddol wrth ddileu TB, megis bioddiogelwch, i sicrhau bod ffermwyr sy'n profi achosion o TB yn cael eu cefnogi'n llawn, ac mae'r rhai y mae eu buchesi yn rhydd rhag TB yn parhau i weithredu mesurau bioddiogelwch cryf.

Mae ein Rhaglen Lywodraethu yn cynnwys yr addewid i wahardd difa moch daear er mwyn atal TB mewn gwartheg rhag lledaenu. Mae'r dystiolaeth sydd ar gael yn amhendiant ac, yn ei chyfanrwydd, nid yw'n creu dadl gref y bydd difa moch daear yn lleihau nifer yr achosion o TB yn sylweddol.

Pa ganlyniadau yr hoffem eu cyflawni?

Ein nod yw dileu TB, ac mae'r Rhaglen Dileu TB yn cyfrannu at y weledigaeth hon drwy geisio lleihau TB, ynghyd â'r effeithiau cysylltiedig ar les anifeiliaid a lles cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol, gan ddiogelu iechyd y cyhoedd a dileu'r clefyd, ac o ganlyniad gyfrannu at broffidioldeb y diwydiant da byw.

Mae'r Rhaglen Dileu TB yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn, ac rydym yn ceisio diweddarau ein dull gweithredu'n barhaus wrth i ganfyddiadau ymchwil ddod i'r amlwg, er mwyn sicrhau y gallwn barhau i fodloni'r egwyddorion allweddol ar gyfer rheoli clefydau heintus sy'n ganolog i'n rhaglen:

Ei gadw allan – atal clefydau rhag cyrraedd y fuches;

Ei ddarganfod yn gyflym – dod o hyd i wartheg wedi'u heintio cyn gynted â phosibl cyn iddynt ael cyfle i heintio eraill;

Ei atal rhag lledaenu – symud gwartheg wedi eu heintio'n fuan ac atal y clefyd rhag lledaenu i anifeiliaid eraill;

Cael gwared arno – dileu'r clefyd ar ôl canfod yr haint.



Mae'r Rhaglen Dileu TB hefyd yn cyfrannu at nifer o ganlyniadau ehangach, gan gynnwys gwella boddolrwydd ar ffermydd drwy gynlluniau iechyd buchesi, ymweliadau Cymorth TB a chynlluniau gweithredu unigol. Mae'r rhaglen yn cydnabod effaith achosion o TB ar iechyd a lles ffermwyr drwy ddarparu cymorth a chynghor milfeddygol â chymhorthdal.

Beth gall Grŵp Fframwaith Cymru ei wneud i helpu i gefnogi'r amcanion hyn?

Dim ond drwy weithio mewn partneriaeth â ffermwyr, y diwydiant a rhanddeiliaid eraill y gellir cyflawni ein nod o ddileu TB yng Nghymru – mae gan bob un ohonom rôl i'w chwarae. Mae Grŵp y Fframwaith yn helpu i gefnogi ein hamcanion drwy ddarparu cyswllt hanfodol â'r rhanddeiliaid hyn, hwyluso a symleiddio'r broses o rannu negeseuon allweddol a darparu cysylltiadau â'r gymuned amaethyddol a gwledig ehangach.

Ble gallwch gael rhagor o wybodaeth?

TB Hub: www.tbhub.co.uk

Trosolwg o TB: <https://llyw.cymru/tb-mewn-gwartheg>

Cynllunio wrth gefn ar gyfer Clefydau Egsotig Hysbysadwy mewn Anifeiliaid

Mae'n hanfodol bod gan y Llywodraeth, Awdurdodau Lleol a'r Diwydiant gynlluniau wrth gefn effeithiol ar waith i leihau effaith clefydau anifeiliaid, i atal clefydau rhag lledaenu ac i ddileu clefydau'n gyflym er mwyn galluogi gwella. Fel y dangosodd effaith helaeth pandemig y coronafeirws, mae'n hanfodol sicrhau bod cynlluniau effeithiol ar waith i ymateb i sefyllfaoedd brys mewn amgylchedd sy'n newid yn barhaus.

Mae Cynllun wrth gefn Llywodraeth Cymru ar gyfer Clefydau Egsotig Hysbysadwy mewn Anifeiliaid yn nodi'r trefniadau a'r systemau sydd eu hangen i ymateb yn effeithiol i achosion o glefyd, gan gynnwys rolau a chyfrifoldebau'r Llywodraeth, rhanddeiliaid a phartneriaid gweithredol. Rydym i gyd yn gyfrifol am sicrhau bod y diwydiant ffermio yn gydnerth, ac mae gan bob un ohonom rôl i'w chwarae.

Mae effeithiolrwydd ein cynlluniau wrth gefn yn dibynnu ar ba mor gyflym y gellir nodi'r achos cyntaf o glefyd, gyda phawb sydd â chyfrifoldebau yn gwybod y rhan y dylent ei chwarae. Mae milfeddygon y Llywodraeth yn

monitro'r sefyllfa o ran clefydau yn fyd-eang, ac yn cynnal gwyliadwriaeth i nodi a dileu bygythiadau'n gyflym a sicrhau ymateb effeithiol i achosion o glefydau. Fodd bynnag, rhaid i'r gwaith hwn gael ei ategu gan wylidwriaeth ar ran pob geidwad anifeiliaid, gan mai ceidwaid anifeiliaid sydd yn y sefyllfa orau i sylwi ar unrhyw newidiadau yn iechyd neu ymddygiad eu hanifeiliaid.

Dylai ceidwaid archwilio eu hanifeiliaid yn rheolaidd, gan chwilio am unrhyw beth anarferol. Os yw ceidwaid yng Nghymru, yn dilyn cyngor gan ei filfeddyg preifat, yn amau clefyd anifeiliaid hysbysadwy, dylai hysbysu'r Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion ar unwaith ar 0300 303 8268. Dylai ceidwaid hefyd sicrhau bod eu safle'n cael ei wneud yn ddiogel ac atal unrhyw symud i mewn ac allan nes iddynt dderbyn cyngor gan APHA. Mae canfod clefyd yn gynnar yn hanfodol er mwyn ei atal rhag lledaenu.

Beth gellir ei wneud?

Mae atal clefydau yn haws ac yn fwy effeithlon nag ymateb i achosion o glefydau. Rhaid i geidwaid anifeiliaid gynnal lefelau uchel o fioggiogelwch, i ddiogelu eu da byw rhag bygythiad clefydau yn y lle cyntaf. Gall camau gweithredu unigol arwain at fanteision sylweddol, p'un a yw'n sicrhau bod dillad a cherbydau'n lân, yn cynnal a chadw ffiniau caeau, yn trwsio ffensys ac yn gwneud penderfyniadau gwybodus wrth brynu da byw. Mae hwn yn gyfrifoldeb parhaus, ac mae wastad rhagor y gellir ei wneud.

Dylid adolygu mesurau bioddiogelwch yn rheolaidd, ac asesu a ydynt yn gweithio a pha gamau pellach y gellir eu cyflwyno. Mae gwella bioddiogelwch, ynghyd â monitro stoc, yn hanfodol er mwyn diogelu anifeiliaid rhag clefydau.

Pan fydd unrhyw achos o glefyd hysbysadwy, mae gan y Llywodraeth a'r diwydiant rôl hanfodol i'w chwarae. Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio mewn partneriaeth â Grŵp y Fframwaith, y diwydiant ffermio, y proffesiwn milfeddygol, partneriaid gweithredol, (gan gynnwys awdurdodau iechyd cyhoeddus a swyddogion amgylcheddol) a rhanddeiliaid eraill, gan fod eu cyngor a'u cymorth yn hanfodol er mwyn lleihau'r risg a'r effaith a dileu bygythiad clefydau. Mae hyn yn helpu i reoli a dileu clefydau mewn modd cyfunol sy'n ystyried egwyddorion iechyd i Bawb, gan ddiogelu iechyd y cyhoedd ac iechyd anifeiliaid.

Pa ganlyniadau yr hoffem eu cyflawni?

Os bydd ceidwaid yn fwy gwyliadwrus ynghylch unrhyw glefyd hysbysadwy, bydd hyn yn sicrhau ymateb cyflymach wrth reoli a dileu bygythiad clefydau, a lleihau'r goblygiadau ar gyfer iechyd a lles anifeiliaid ac iechyd y cyhoedd. Os bydd y diwydiant a'r Llywodraeth yn ymaddasu i fygythiadau gan glefydau sy'n dod i'r amlwg oherwydd newid yn yr hinsawdd, ac yn cynyddu mesurau diogelu ar gyfer busnesau ffermio drwy wella effeithlonrwydd a bioddiogelwch ffermydd, bydd hyn yn gwella ein gallu i wrthsefyll digwyddiadau o'r fath, gan wneud Diwydiant Cymru yn fwy cadarn a chynaliadwy.

Beth bydd Grŵp y Fframwaith yn ei wneud i gefnogi'r amcanion hyn?

Mae Grŵp y Fframwaith yn chwarae rôl hollbwysig, gan weithredu fel cyswllt rhwng y Llywodraeth a'r Diwydiant. Mae Grŵp y Fframwaith yn allweddol i hyrwyddo manteision cynllunio iechyd anifeiliaid mewn modd effeithiol a gweithredu dull cyfunol o ymdrin ag iechyd a lles, ac arferion bioddiogelwch llym, er mwyn cynnal

safonau uchel ledled Cymru. Pan fydd achosion o glefyd, bydd Grŵp y Fframwaith yn rhannu negeseuon a chyfarwyddiadau â'r diwydiant ar y camau i'w cymryd yn ein brwydr yn erbyn clefydau, a byddant yn hysbysu'r Llywodraeth am y pwysau a'r broblemau a wynebir gan geidwaid. Mae hyn yn hanfodol er mwyn sicrhau dull partneriaeth cyson, gan sicrhau bod ein diwydiannau ffermio ac economïau gwledig yn gadarn.

Ble gallwch gael rhagor o wybodaeth?

Cynllun Wrth Gefn:

<https://llyw.cymru/clefydau-egsotig-anifeiliaid-cynllun-wrth-gefn>



Lles a Pherchnogaeth Gyfrifol

Deddf Lles Anifeiliaid 2006

Mae Lles Anifeiliaid yn faes polisi sydd wedi'i ddatganoli'n llwyr, a Deddf Lles Anifeiliaid 2006 ('Y Ddeddf') yw'r brif gyfraith sy'n ymwneud â lles anifeiliaid yng Nghymru.

Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd gyfreithiol ar berchnogion a cheidwaid anifeiliaid i ofalu am yr anifeiliaid y maent yn gyfrifol amdanynt, boed hynny'n barhaol neu dros dro. Mae'r cyfrifoldeb am anifail yn cynnwys deall ei anghenion iechyd a lles penodol a meddu ar y wybodaeth a'r sgiliau priodol i ofalu amdano. Rhaid i'r rhai sy'n gyfrifol am anifeiliaid hefyd gydymffurfio â deddfwriaeth, bod yn ymwybodol o'r cod ymarfer perthnasol er lles yr anifeiliaid hynny, a gwybod pryd a ble i ofyn am gyngor ac arweiniad gan unigolion cymwys, e.e. gan filfeddyg.

Mae'r Ddeddf yn amlinellu sut mae'n rhaid i berchennog cyfrifol sicrhau bod anghenion lles eu hanifeiliaid yn cael eu diwallu. Mae'r rhain yn cynnwys yr angen am y canlynol:

- Amgylchedd addas (lle i fyw)
- Deiet addas
- Dangos ymddygiad arferol
- Byw gydag anifeiliaid eraill, neu ar wahân iddynt (os yw hynny'n berthnasol)
- Eu diogelu rhag poen, dioddefaint, anaf a chlefyd

Mae'r Ddeddf yn helaeth ac yn cwmpasu unrhyw anifail sydd fel arfer

yn anifail anwes neu sydd mewn caethiwed. Mae hyn yn cynnwys anifeiliaid gwyllt os ydynt, er enghraifft, yn cael eu cadw mewn sw, parc bywyd gwyllt, sefydliad lles anifeiliaid, anifeiliaid a ddefnyddir mewn adloniant fel arddangosfa anifeiliaid ac anifeiliaid gwyllt a gedwir dros dro mewn trapiau.

Perchenogaeth Gyfrifol

Dylid cymryd camau rhesymol bob amser i ddiogelu lles anifeiliaid. Gall perchnogion neu geidwaid sy'n methu ymddwyn mewn modd cyfrifol beri i anifeiliaid ddioddef yn ddiangen a chynyddu'r baich ar asiantaethau gorfodi, gan gynnwys Awdurdodau Lleol a sefydliadau lles anifeiliaid.

Gall perchnogaeth anghyfrifol gynnwys ymddygiad gwrthgymdeithasol, o fygythiadau difrifol i ddiogelwch y cyhoedd i faeddu a materion amgylcheddol. O safbwynt domestig, mae'n gallu arwain at broblemau o fewn aelwydydd. Ar ffermydd, gall perchnogaeth anghyfrifol arwain at aneffeithlonrwydd, effaith negyddol ar ffermydd cyfagos a chanfyddiad gwael o ffermio anifeiliaid ymhlith y cyhoedd.

Ni ddylid byth gadael anifeiliaid mewn amgylchiadau lle maent yn debygol o ddioddef. Disgwylir i berchnogion a cheidwaid anifeiliaid fod â'u cynlluniau wrth gefn eu hunain ar gyfer sefyllfa lle y gallai anifeiliaid fod mewn perygl, er enghraifft yn ystod tywydd eithafol.

Mae bod yn berchen ar anifail yn ffrain, nid yn hawl, a rhaid i bobl fod yn gyfrifol am eu gweithredoedd pan

fyddant yn dewis cadw a gofalu am unrhyw anifail. Dylid cynllunio ymlaen llaw bob amser cyn caffael unrhyw anifail, gan ystyried anghenion yr anifail y bydd yn rhaid eu diwallu am weddill ei oes, gan gynnwys y costau sy'n gysylltiedig â'i gadw. Mae bod yn berchen ar anifail yn dod â manteision cadarnhaol i bobl a gall wella ansawdd eu bywyd.

Dylai'r cysyniad o berchnogaeth gyfrifol gael ei ystyried bob tro y gwneir gwaith i ddatblygu a gweithredu polisi anifeiliaid. Mae hyn yn cynnwys ffermio pysgod (dyframaeth). Ar gyfer cadw gwenyn (gwenynyddiaeth) mae'n bwysig bod safonau hwsmonaeth da a pherchnogaeth gyfrifol yn cael eu harfer. Cafodd y Cynllun Gweithredu ar gyfer Cynllun Gwenyn Iach 2030 ei gyhoeddi'n ddiweddar, ac mae'n amlinellu'r camau y bydd gwenynwyr, ffermwyr gwenyn, cymdeithasau gwenyn a'r Llywodraeth yn eu cymryd i ddiogelu a gwella poblogaethau o wenyn mêl.



Cynllun Lles Anifeiliaid i Gymru

Yn ddiweddar mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi Cynllun Lles Anifeiliaid pum mlynedd i Gymru). Mae hwn yn amlinellu'r map ffordd ar gyfer gwireddu pedwar ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu mewn perthynas â lles anifeiliaid, ac mae hefyd yn amlinellu sut y bydd amrediad eang o waith parhaus ar bolisi lles anifeiliaid yn mynd rhagddo, gan gynnwys canllawiau statudol ar gyfer y Rheoliadau presennol, trwyddedu arddangosfeydd anifeiliaid, lles anifeiliaid wrth iddynt gael eu cludo, a Chodau Ymarfer. Cydnabyddir yr angen i adolygu'r ddeddfwriaeth bresennol ar les anifeiliaid, ynghyd â hyblygrwydd os bydd angen camau polisi newydd. Yn olaf, mae'r cynllun yn trafod pan fydd yn briodol gwneud gwaith ar y cyd â gweinyddiaethau eraill y DU, a sut byddwn yn mynd ati i wneud y gwaith hynny, er mwyn cyflawni amcanion er lles anifeiliaid yng Nghymru, a'r hwnt.

Beth bydd Grŵp y Fframwaith yn ei wneud i gefnogi amcanion polisi er lles anifeiliaid?

Bydd Grŵp y Fframwaith yn cefnogi amcanion polisi er lles anifeiliaid drwy fonitro effeithiolrwydd y Cynllun Lles Anifeiliaid i Gymru a'r ffordd mae'n cael ei weithredu, ac adolygu'r rhestr o gamau gweithredu ac amserlenni i sicrhau eu bod yn parhau i fod yn gyfredol, yn berthnasol ac yn effeithiol.

Bydd Grŵp y Fframwaith hefyd yn cyflawni rôl gynrychioliadol fel llefarwyr ar faterion iechyd a lles anifeiliaid, gan gefnogi newid addysgol ac ymddygiadol.

Deddf Lles Anifeiliaid 2006

<https://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2006/45>

Polisi Lles Anifeiliaid

<https://llyw.cymru/lles-anifeiliaid>

Y Cynllun Gweithredu ar gyfer Cynllun Gwennyn Iach 2030

www.nationalbeeunit.com

Y Cynllun Lles Anifeiliaid i Gymru

<https://llyw.cymru/cynllun-lles-anifeiliaid-cymru-2021-26>



Anifeiliaid a Ffermir

Teledu Cylch Cyfyng mewn Lladd-dai

Mae ein rhwydwaith o ladd-dai yng Nghymru yn darparu gwasanaeth hanfodol i ffermwyr, cigyddion a defnyddwyr. Mae hefyd yn cefnogi gweithlu medrus, cadwyni cyflenwi integredig lleol a marchnadoedd allforio. Mae nifer o reolaethau eisoes ar waith yn ein lladd-dai i ddiogelu lles anifeiliaid, gyda Milfeddygon Swyddogol yn bresennol i sicrhau y cydymffurfir â'r rheoliadau. Mae'n ofynnol hefyd i ladd-dai mwy benodi eu Swyddog Lles Anifeiliaid eu hunain. Mae Swyddogion Lles Anifeiliaid yn helpu staff i gydymffurfio â rheoliadau a rhaid iddynt fod yn bresennol pryd bynnag y lladdir anifeiliaid. Mae'r diwydiant hefyd wedi cyhoeddi canllawiau helaeth ar yr arferion gorau ar gyfer diogelu lles anifeiliaid.

Mae gan ein lladd-dai mwy, sy'n prosesu'r mwyafrif helaeth o anifeiliaid, deledu cylch cyfyng ar eu safleoedd eisoes fel ffordd o sicrhau hyder y cyhoedd. Maent hefyd yn cadw at brotocol a ddatblygwyd ac y cytunwyd arno ar y cyd rhwng yr Asiantaeth Safonau Bwyd a chyrff y diwydiant i alluogi Milfeddygon Swyddogol i gael gafael ar ddelweddau sydd wedi cael eu recordio. Fodd bynnag, nid oes gan bob lladd-dy yng Nghymru y cyfleuster hwn.

Beth y gellir ei wneud?

Er na all teledu cylch cyfyng gymryd lle goruchwyliaeth uniongyrchol gan reolwyr lladd-dai neu filfeddygon swyddogol, yn enwedig mewn safleoedd bach iawn, gall ddarparu

tystiolaeth ategol wrthrychol o'r safonau ym mhob sefydliad. Mae teledu cylch cyfyng yn rhoi sicrwydd ychwanegol bod safonau lles anifeiliaid yn cael eu monitro a'u gwirio'n effeithiol, a hyder gwell ymhlith defnyddwyr fod safonau lles yn cael eu bodloni. Dyna pam mae'r Rhaglen Lywodraethu yn cynnwys ymrwymiad i'w gwneud yn ofynnol i bob lladd-dy fod â theledu cylch cyfyng.

Beth yr hoffem ei gyflawni?

Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i fod wedi ymrwymo i weithio gyda gweithredwyr lladd-dai mewn modd cefnogol, a byddwn yn gweithio gyda rhanddeiliaid i baratoi ac ymgynghori ar reoliadau drafft a fydd yn ei gwneud yn ofynnol i ladd-dai cymeradwy osod a gweithredu teledu cylch cyfyng ym mhob ardal lle mae anifeiliaid byw yn bresennol. Y nod yw i'r gofyniad i osod teledu cylch cyfyng ym mhob lladd-dy yng Nghymru ddod i rym o fewn y ddwy flynedd nesaf.

Ble gallwch gael rhagor o wybodaeth?

<https://llyw.cymru/cynllun-lles-anifeiliaid-cymru-2021-26>



Lles Anifeiliaid wrth iddynt Gael eu Cludo

Dim ond pan fo angen y dylid cludo anifeiliaid a dylid sicrhau bod amseroedd teithio mor fyr ag y bo modd. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymgynghori ar y cyd â'i chymheiriaid yn y DU ar welliannau i les anifeiliaid sy'n cael eu cludo. Gofynnwyd am farn ar wahardd allforio anifeiliaid byw i'w lladd ac ar gynigion i wella amodau anifeiliaid pan fyddant yn cael eu cludo yn fwy cyffredinol, gan gynnwys: terfyn ar amseroedd teithio, tymheredd ac awyru, uchder y brif ystafell, cludo anifeiliaid ar y môr a faint o le a roddir i'r anifail. Cyhoeddwyd y Crynodeb o'r Ymatebion ac Ymateb y Llywodraeth ym mis Awst 2021.

Beth y gellir ei wneud?

Nid oes angen allforio anifeiliaid i'w lladd neu eu pesgi, oherwydd gellid eu lladd neu eu pesgi yn y DU. Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Llywodraeth y DU i gyflwyno gwaharddiad ar allforio gwartheg, defaid, moch, geifr a cheffylau byw i'w lladd, gan gynnwys i'w pesgi cyn cael eu lladd nes ymlaen, drwy'r Bil Lles Anifeiliaid (Anifeiliaid a Gedwir). Bydd y gwaharddiad yn cael ei gyflwyno cyn gynted â phosibl ar ôl i'r Bil Lles Anifeiliaid (Anifeiliaid a Gedwir) gael Cydsyniad Brenhinol. Rydym yn disgwyl i hyn ddigwydd yn 2022.

Mae'r Bil Lles Anifeiliaid (Anifeiliaid a Gedwir) yn cynnwys darpariaethau i wneud nifer o ddiwygiadau sy'n ymwneud â lles anifeiliaid a gedwir, gan gynnwys anifeiliaid fferm, anifeiliaid anwes, ac anifeiliaid gwyllt a gedwir. Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Llywodraeth y DU mewn

perthynas â'r cynigion a'r ffordd maent yn cael eu gweithredu yng Nghymru.

Parheir i ganiatáu allforion at ddibenion nad ydynt yn cynnwys lladd neu besgi, megis ar gyfer bridio neu gystadlaethau a sioeau. Nid yw dofednod wedi'u cynnwys yn y gwaharddiad.

Beth yr hoffem ei gyflawni?

Drwy'r gwaith hwn a gwaith dilynol gyda Llywodraeth y DU a gweinyddiaethau eraill, bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i ystyried sut y gellir cryfhau'r ffordd mae lles anifeiliaid yn cael ei ddiogelu pan fyddant yn cael eu cludo. Mae tystiolaeth wedi dangos y gall teithiau hir iawn peri straen, dadhydradu ac anafiadau corfforol anifeiliaid sy'n cael eu cludo. Byddwn nawr yn gweithio gyda rhanddeiliaid ac arbenigwyr – gan gynnwys grwpiau lles anifeiliaid a ffermio – i ddatblygu'r mesurau hyn ymhellach er mwyn helpu i wella lles anifeiliaid a ffermir pan fyddant yn cael eu cludo.

Ble gallwch gael rhagor o wybodaeth?

<https://llyw.cymru/gwelliannau-i-les-anifeiliaid-mewn-trafnidiaeth>

Cyfyngu ar ddefnyddio cewyll ar gyfer anifeiliaid a ffermir

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i les anifeiliaid yn ystod pob cam o'u bywyd. Cafodd cewyll batri ar gyfer ieir dodwy, llociau hychod a chraets lloi at ddibenion cynhyrchu cig llo eu gwahardd achos eu bod yn peri anfanteision difrifol i les yr anifeiliaid a oedd yn cael eu cadw yn y systemau hynny.

Caniateir rhai systemau cawell o hyd, ac mae'n bosibl na fydd gan anifeiliaid sy'n cael eu cadw mewn cewyll am eu heos gyfan neu ran ohoni y rhyddid i ymddwyn yn eu ffordd arferol – un o'r Pum Anghenion Lles a ddatblygwyd gan y Pwyllgor Lles Anifeiliaid Fferm (a elwir bellach y Pwyllgor Lles Anifeiliaid). Mae cewyll yn cyfyngu ar ddewis anifail ac nid ydynt yn darparu'n llawn ar gyfer anghenion corfforol ac ymddygiadol.

Beth gellir ei wneud?

Fel rhan o'n hymrwymiad i wella safonau lles anifeiliaid a ffermir, mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Llywodraeth y DU a Llywodraeth yr Alban i archwilio'r dystiolaeth ynghylch defnyddio cewyll mewn ffermio, gan gynnwys cewyll wedi'u cyfoethogi ar gyfer ieir dodwy, llociau porchella ar gyfer moch a chewyll bridio ar gyfer adar hela. Y nod yw, cyn belled ag y bo modd, sicrhau cysondeb ar draws



Prydain Fawr er budd gorau lles anifeiliaid.

Beth yr hoffem ei gyflawni?

Mae galw gan gymdeithas i symud i systemau cynhyrchu mwy moesegol. Mae ein Rhaglen Lywodraethu yn cynnwys ymrwymiad i gyfyngu ar ddefnyddio cewyll ar gyfer anifeiliaid a ffermir.

Ble gallwch gael rhagor o wybodaeth?

www.gov.uk/government/groups/animal-welfare-committee-awc

Codau Ymarfer ar gyfer Lles

Roedd effaith drawsnewidiol Deddf Lles Anifeiliaid 2006 yn sefydlu'r egwyddor 'mae atal yn well na gwella', ac yn pennu pum angen lles ar gyfer pob anifail a gedwir. I gefnogi hyn, mae'r Ddeddf hefyd yn caniatáu i Lywodraeth Cymru lunio Codau

Ymarfer er lles anifeiliaid anwes a da byw. Fel prif ffynhonnell wybodaeth, bwriedir i'r codau annog pawb sy'n gyfrifol am anifeiliaid i fabwysiadu'r safonau uchaf o hwsmonaeth. Maent yn darparu canllawiau ar sut i ofalu am amrywiaeth o anifeiliaid, er mwyn bodloni'r safonau gofal sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith. Maent yn amlinellu'r camau mae angen eu cymryd i sicrhau bod anifeiliaid yn cael eu ddiogelu rhag poen, dioddefaint, anafiadau a chlefydau, ac yn amlinellu rôl yr ymarferydd milfeddygol yng ngofal yr anifail. Mae'r angen i gymryd camau priodol o ran brechiadau, rheoli parasitiaid a gofal arferol yn cael eu disgrifio'n llawn hefyd. Mae codau wedi cael eu cyhoeddi ar gyfer ceffylau, cŵn, cathod, cwningod, gwartheg, defaid, moch, ieir dodwy, ieir bwyta ac adar hela.



Beth gellir ei wneud?

Fel rhan o'n hymrwymiad parhaus i gynnal ac ehangu ein portffolio o Godau Ymarfer Lles, mae Cynllun Lles Anifeiliaid i Gymru yn amlinellu sut y byddwn yn sefydlu cylch adolygu ar gyfer ein codau, gyda diweddariadau yn cael eu trefnu, cyn belled ag y bo modd, i adlewyrchu datblygiadau polisi, gan gynnwys yr ymrwymïadau yn ein Rhaglen Lywodraethu. Mae hefyd yn disgrifio sut y byddwn yn ystyried yr angen am godau newydd mewn meysydd nad ydynt wedi'u cynnwys ar hyn o bryd, ac yn adolygu'r codau presennol yn unol â'r cylch adolygu er mwyn sicrhau bod y wybodaeth a ddarperir yn gyfredol ac yn glir i bob randdeiliad. Bydd y gwaith hwn yn cael ei wneud ar y cyd â sefydliadau partner allweddol.

Pa ganlyniadau yr hoffem eu cyflawni?

Drwy ehangu cyrhaeddiad a phroffil y codau, hoffem hwyluso dealltwriaeth well o gyfrifoldeb bod yn berchen ar anifeiliaid, anghenion anifeiliaid a sut i ofalu amdanynt, a gostyngiad yn nifer yr achosion o les gwael.

Ble gallwch gael rhagor o wybodaeth?

Codau Ymarfer: <https://llyw.cymru/lles-anifeiliaid>

<https://llyw.cymru/cynllun-lles-anifeiliaid-cymru-2021-26>

Anifeiliaid Anwes

Trwyddedu Arddangosfeydd Anifeiliaid a Sefydliadau Anifeiliaid

Mae pryderon nad yw safonau lles yn cael eu hasesu fel mater o gwrs mewn arddangosfeydd anifeiliaid a sefydliadau anifeiliaid, megis arddangosfeydd symudol, gwaith allgymorth a noddfeydd. Cafodd gwaith polisi blaenorol yn y maes hwn, gyda'r nod o greu trefn drwyddedu a gorfodi estynedig, ei atal dros dro o ganlyniad i flaenoriaethau sy'n gysylltiedig â phandemig y coronafeirws. Y gobaith oedd y byddai gweithredu'r cynllun hwn yn cael effaith barhaol ar les yr anifeiliaid dan sylw, ac ar agweddau perchnogion anifeiliaid yn y dyfodol.



Beth gellir ei wneud?

Gan weithio mewn partneriaeth â rhanddeiliaid allweddol, byddwn yn ailystyried ein cynlluniau, gan ddechrau gydag ymgynghori pellach ar gwmpas ac effaith cynigion, gan gynnwys y potensial i ehangu eu cyrhaeddiad i gynnwys lleoliadau fel traciau rasio milgwn. Wedyn byddwn yn cyflwyno deddfwriaeth yn ôl yr angen ar gyfer cynlluniau trwyddedu, i sicrhau bod safonau lles uchel yn cael eu cynnal a bod anifeiliaid yn cael eu harddangos, eu cadw a'u trin mewn ffordd barchus a chyfrifol.

Beth yr hoffem ei gyflawni?

Rydym yn bwriadu cwblhau'r prosesau ymgynghori a nodi pa newidiadau deddfwriaethol mae angen eu gwneud i gyd-fynd â'r Cynllun Lles Anifeiliaid i Gymru. Os bydd angen, byddwn yn drafftio deddfwriaeth newydd, o bosibl o dan Reoliadau Lles Anifeiliaid (Trwyddedu Gweithgareddau sy'n Ymwneud ag Anifeiliaid) (Cymru) 2021.

Ble gallwch gael rhagor o wybodaeth?

www.llyw.cymru/cynllun-lles-anifeiliaid-cymru-2021-26

Creu Model Cenedlaethol ar gyfer Rheoleiddio Lles Anifeiliaid

Ers i bwerau ar gyfer deddfwriaeth lles anifeiliaid gael eu datganoli, gwnaed llawer o gynnydd o ran gwella bywydau ac amodau anifeiliaid yng Nghymru. Rydym wedi cyflwyno ein darnau ein hunain o ddeddfwriaeth a, lle bo hynny'n fuddiol i'r ddwy ochr, wedi gweithio ar y cyd â

gweinyddiaethau eraill y DU. Mae ein gwaith wedi ymdrin ag amrediad eang o faterion a rhywogaethau, ac mae'r gwaith gorfodi wedi arwain at weithio mewn partneriaeth gydag amrywiaeth o asiantaethau, yn ogystal â swyddogion o Awdurdodau Lleol Cymru. Roeddem o'r farn bod cyflawni a gorfodi yn gryfach pan fydd cydddealltwriaeth o'r hyn a ddisgwylir a pham, ac mae eglurder yn hyn o beth weithiau yn cael ei rwystro gan ddulliau pwrpasol sydd wedi cael eu mabwysiadu mewn polisïau dros y blynnyddoedd, yn ogystal ag amrywiaeth o ran y ffordd mae dulliau gorfodi'n cael eu gweithredu.

Beth gellir ei wneud?

Er mwyn gwireddu dau ymrwymiad blaenllaw i les anifeiliaid yn y Rhaglen Lywodraethu, byddwn, yn gyntaf, yn gosod y sylfeini ar gyfer model cenedlaethol ar gyfer trwyddedu a rheoleiddio sefydliadau a busnesau sy'n canolbwyntio ar anifeiliaid a gedwir, er mwyn sicrhau dull gweithredu cyson, a chyflawni'r gofynion rheoleiddiol mewn modd cadarn a chyson ledled Cymru. Yn ail, byddwn yn parhau i gefnogi hyfforddiant swyddogion gorfodi drwy brosiect peilot a gefnogir gan Lywodraeth Cymru, mewn cydweithrediad ag Awdurdodau Lleol Cymru, wrth hefyd sefydlu gweithgor mewn partneriaeth ag asiantaethau gorfodi allweddol i asesu'r cymwysterau sy'n ofynnol ar hyn o bryd gan bob corff gorfodi.



Beth yr hoffem ei gyflawni?

Yn ystod tymor y Llywodraeth bresennol, rydym yn ceisio model cenedlaethol a fydd yn darparu proses weinyddu safonol ar gyfer ceisiadau am drwyddedau a phwynt cyfeirio sengl ar gyfer ymgeiswyr a'r cyhoedd. Bydd hyn yn sicrhau rhagor o gysondeb o ran cymorth i fusnesau ac asiantaethau gorfodi. Bydd y model yn berthnasol i ddatblygiadau polisi yn y dyfodol ac yn gwella cadernid ledled Cymru pan fydd asiantaethau gorfodi'n profi digwyddiadau nas rhagwelwyd a bod angen cymorth allanol ychwanegol. Ochr yn ochr â hyn, mae ein gwaith ar orfodi hefyd yn ceisio codi statws a chymwysterau swyddogion arolygu, yn ogystal â chysiondeb y dulliau gweithredu.

Ble gallwch gael rhagor o wybodaeth?

www.llyw.cymru/cynllun-lles-anifeiliaid-cymru-2021-26



Anifeiliaid Eraill a Gedwir

Diwygiadau i Safonau Arferion Sŵau Modern

Mae sector Sŵau Cymru yn cael eu trwyddedu o dan Ddeddf Trwyddedu Sŵau 1981, ac ategir y gwaith o weithredu'r Ddeddf hon gan Safonau Arferion Sŵau Modern Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2006). Ers cyhoeddi'r safonau hyn, mae'r sector wedi tyfu ac arallgyfeirio'n sylweddol, ac mae ein gwybodaeth a'n dealltwriaeth o'r arferion gorau o ran lles anifeiliaid a gedwir mewn sŵau wedi datblygu ochr yn ochr â datblygiadau gwyddonol sylweddol. Mae arallgyfeirio o fewn y sector hefyd wedi rhoi ffocws o'r newydd ar ddiogelwch y cyhoedd, yn ogystal â chodi materion mewn perthynas â chydymffurfio a gorfodi yn y prosesau trwyddedu ac arolygu.

Beth gellir ei wneud

Mewn partneriaeth â Llywodraeth y DU a Llywodraeth yr Alban, rydym wedi datblygu adolygiad cynhwysfawr o Safonau Arferion Sŵau Modern. Mae'r Safonau wedi cael eu drafftio ar gyfer ceidwaid sŵau a staff sŵau, gweithredwyr sŵau, arolygwyr sŵau ac Awdurdodau Lleol, a byddant yn berthnasol ledled Prydain Fawr. Maent yn cynnwys gofynion arbenigol a thechnegol ar gyfer gwahanol fathau o rywogaethau a sŵau, yn seiliedig ar gyngor arbenigol a ddarparwyd gan Bwyllgor Arbenigol y DU ar Sŵau ac ystod eang o arbenigwyr yn y diwydiant. Mae'r safonau newydd yn cynnwys dealltwriaeth gyfredol a'r arferion gorau ar gyfer lles pob anifail

a gedwir mewn sw ar hyn o bryd, ynghyd â gofynion wedi'u cryfhau sy'n ceisio diogelu'r cyhoedd ac atal anafiadau a marwolaethau a achosir gan anifeiliaid gwyllt peryglus.

Beth yr hoffem ei gyflawni?

Yn dilyn yr ymgynghori sydd ei angen ar draws y diwydiant, disgwylir i'r Safonau diwygiedig gael eu lansio yn 2022. Ein nod yw gweithio gyda'r sector sŵau yng Nghymru i sicrhau cyfranogiad yn y prosesau ymgynghori, a'r gwaith wedyn o weithredu'r safonau er budd lles anifeiliaid, diwydiant sŵau Cymru, cadwraeth a diogelwch y cyhoedd. Bydd y Safonau newydd hefyd yn hwyluso proses adrodd arolygu symlach sy'n caniatáu i arolygwyr ganolbwyntio eu harbenigedd ar argymhellion i ddiogelu safonau.

Ble gallwch gael rhagor o wybodaeth?

Deddf Trwyddedu Sŵau 1981
<https://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/1981/37>

Cloffni mewn Da Byw

Mae cloffni'n effeithio ar les, cynhyrchiant a chynaliadwyedd ein diadellau a'n buchesi cenedlaethol. Bydd lleihau lefelau cloffni yn cael effaith gadarnhaol sylweddol ac yn arwain at amrediad eang o fanteision ar draws y diwydiant ar bob lefel. Yn bwysicaf oll, bydd yn gwella lles anifeiliaid unigol. Bydd hyn yn arwain at ganlyniadau cadarnhaol ychwanegol, oherwydd gostyngiad o ran faint o wrthfotigau sy'n cael eu defnyddio, cynhyrchiant uwch, llai o

golledion economaidd ac, o ganlyniad, ddiwydiant mwy cynaliadwy. Mae'r manteision hyn yn cyd-fynd yn dda ag amcanion Llywodraeth Cymru ar gyfer ymdrin ag iechyd a lles mewn modd cyfunol, gan ddilyn egwyddorion Iechyd i Bawb a Lles i Bawb.

Mae cloffni'n aml-ffactor, ac felly gall mynd i'r afael ag ef fod yn heriol, ac yn aml mae angen defnyddio dull unigol ar bob fferm. Mae pennu lefelau presennol o gloffni a deall y prif ffactorau risg yn allweddol i ddatblygu dull effeithiol drwy raglenni rheoli sy'n canolbwyntio ar gloffni.

Beth gellir ei wneud?

Hoffem sicrhau bod pob fferm gwartheg a defaid yng Nghymru yn ymwybodol o lefelau cloffni ar eu fferm a bod asesiad o hyn yn cael ei gynnal gyda'u milfeddyg fel rhan o gynllunio iechyd anifeiliaid yn gyffredinol a'r Cylch Gwella Iechyd Anifeiliaid os yw hyn yn berthnasol yn benodol.

Lle mae lefelau cloffni yn uchel ac yn effeithio ar les, dylid rhoi mesurau ar waith i weithio tuag at leihau hyn, er enghraifft drwy weithredu Rhaglen Traed Iach AHDB (gwartheg godro) neu'r Cynllun Pum Pwynt (defaid).

Byddwn yn gweithio gyda phob rhanddeiliad allweddol i hyrwyddo pwysigrwydd a manteision lleihau cloffni yn y fuches a'r ddiadell genedlaethol. Mae hyn yn cynnwys parhau i gyfathrebu â ffermwyr a'u cefnogi drwy HerdAdvance yr AHDB, Stoc+ HCC a phrosiectau Cyswllt Ffermio ac ymgysylltu â'r holl randdeiliaid gan gynnwys milfeddygon a thocwyr carnau gwartheg.

Beth bydd Grŵp y Fframwaith yn ei wneud i gefnogi'r amcanion hyn?

Pob math o wartheg

- Annog ffermwyr i gymryd rhan mewn rhaglenni rhannu gwybodaeth am gloffni e.e. drwy Gyswllt Ffermio.
- Annog pob fferm i roi protocol triniaeth filfeddygol manwl ar gyfer cloffni ar waith, gan gynnwys cofnodi achosion o gloffni.
- Gwella cymhwysedd ar y fferm wrth drin gwartheg cloff.
- Os defnyddir tociwr carnau gwartheg proffesiynol, hyrwyddo pwysigrwydd defnyddio tociwr cymwys sydd naill ai wedi cael archwiliad yn y fan a'r lle gan Fwrdd Safonau Gofal Carnau Gwartheg neu wedi mynychu diwrnod gwirio wedi'i ddilysu gyda Chymdeithas Genedlaethol Tocwyr Carnau Gwartheg o fewn y ddwy flynedd ddiwethaf.
- Hyrwyddo pwysigrwydd bioddiogelwch da wrth atal dermatitis digidol rhag lledaenu rhwng ac o fewn ffermydd.

Tynnu sylw at y cysylltiad rhwng dermatitis digidol a Dermatitis Digidol Heintus mewn Defaid i annog bioddiogelwch gwell rhwng gwartheg a defaid ar ffermydd cymysg.

Gwartheg Godro

- Annog pob ffermwr llaeth i gael sgôr symudedd gan sgoriwr achrededig annibynnol sydd ar y gofrestr o Sgorwyr Symudedd.
- Hyrwyddo'r defnydd o Ap Sgorio Symudedd Traed Iach AHDB i wella'r broses gofnodi.
- Hyrwyddo manteision Llwybr Cloffni HerdAdvance AHDB.
- Tynnu sylw at fanteision gweithio gyda milfeddygon hyfforddedig (Mentoriaid Symudedd) i weithredu Rhaglen Traed Iach AHDB.
- Annog ffermydd i gymryd rhan yn y Rhaglen Traed Iach os bydd milfeddyg yn nodi cloffni.
- Parhau i gefnogi, hyrwyddo ac annog ymchwil i systemau awtomataidd ar gyfer canfod cloffni.

Defaid

- Parhau i weithio gyda rhaglenni rhannu gwybodaeth fel Cyswllt Ffermio i hyrwyddo pwysigrwydd lleihau cloffni yn y ddiadell
- Annog pob ffermwr i sicrhau bod ganddo rywun sy'n gymwys i adnabod, gwneud diagnosis a thrin cloffni ar y fferm mewn modd priodol.
- Hyrwyddo pwysigrwydd rhoi protocol triniaeth filfeddygol manwl ar waith ar gyfer cloffni a system



- gofnodi ar waith i ganiatáu
gwerthuso achosion cloffni.
- Bioddiogelwch mewn perthynas ag achosion heintus cloffni.
 - Annog ystyried lleihau cloffni wrth wneud pob penderfyniad ynghylch y ffordd mae'r ddiadell yn cael ei rheoli
 - Archwilio'r ffordd orau o reoli defaid ag annormaleddau cronig.

Pa ganlyniadau yr hoffem eu cyflawni?

Yn ystod cyfnod y Cynllun Gweithredu hoffem symud tuag at sefyllfa lle mae lefelau cloffni yn gostwng chwarter.

Mae'r nod hwn yn cyd-fynd yn agos â llawer o'r themâu sydd hefyd yn rhan o'r Cynllun Gweithredu. Mae'r rhain yn cynnwys gwella'r broses o gasglu data mewn perthynas â chloffni, y Cylch Gwella Iechyd Anifeiliaid, gwella bioddiogelwch (yn benodol mewn perthynas ag achosion heintus cloffni) a chynaliadwyedd oherwydd yr effaith y bydd lleihau cloffni yn ei chael ar gynhyrchiant, hyd oes a phroffidioldeb ein buches a'n diadell genedlaethol yn y pen draw.

Ble gallwch gael rhagor o wybodaeth?

Rhaglen Traed Iach AHDB:

www.ahdb.org.uk/healthy-feet

Y Cynllun Pum Pwynt ar gyfer Lleihau Cloffi mewn Defaid:

www.faifarms.com/lameness5pointplan

Manylion Cyswllt



Mae'r wybodaeth ddiweddaraf am y Fframwaith a
Grŵp y Fframwaith ar gael yn:
<https://llyw.cymru/strategaeth-anifeiliaid-a-ffermir>



E-bostiwrch ni yn: WAHFG@llyw.cymru



Dilynwch ni ar Twitter @CVOWales

Neu ysgrifennwch atom yn:

Ysgrifenyddiaeth Fframwaith
Iechyd a Lles Anifeiliaid Cymru
Swyddfa'r Prif Filfeddyg
Adeiladau Llywodraeth Cymru
Cathays Park
Caerdydd
CF10 3NQ

